GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gofal Iechyd Parhaus y GIG

# Adnodd Cymorth Penderfynu at ddefnydd Ymarferwyr yn unig

Cyhoeddwyd: **Gorffennaf 2021**
Cyhoeddwyd Fersiwn 2: **Mawrth 2022**
I'w roi ar waith: **1 Ebrill 2022**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022
WG43164 ISBN Digidol 978-1-80195-738-0

# Cynnwys

**Rhagair**……………………………………………………………………………….. 3

**Nodiadau i Ddefnyddwyr**………………………………………………………………….. 4

Egwyddorion Sylfaenol……………………………………………………………...4

Proses………………………………………………………………………………...6

Cydsyniad…………………………………………………………………………….7

Rolau a Chyfrioldebau Allweddol…………………………………………………..7

Cwblhau'r ACP a nodi Angen Iechyd Sylfaenol……………..............................16

Cyfleu'r Penderfyniad / Rhannu Gwybodaeth……………………………………..17

**Adnodd Cymorth Penderfyny..**…………………………………………………………….19

Adran 1 - Manylion Personol …………………………………………………….19

Adran 2 - Meysydd Gofal…………………………………………………………….24

Adran 3 - Argymhelliad a Rhestr Termau………………………………………….50

Adran 4 - Ffurflen Monitro Cydraddoldeb………………………………………….56

# Rhagair

1. Mae'r Adnodd Cymorth Penderfynu (ACP) yn adnodd cenedlaethol i helpu ymarferwyr i gymhwyso'r *Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG (2021) (Fframwaith 2021).*
2. Dim ond ar y cyd â'r canllawiau yn Fframwaith 2021 y dylid defnyddio'r ACP. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth o weithgarwch asesu anghenion a chymhwyso tystiolaeth mewn un fformat ymarferol er mwyn hwyluso gwneud argymhellion a phenderfyniadau cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch cymhwysedd i gael Gofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG yng Nghymru. Dylai pob aelod o staff sy'n defnyddio'r ACP fod yn gyfarwydd ag egwyddorion sylfaenol y Fframwaith a bod wedi cael hyfforddiant priodol.
3. Ni fydd unrhyw adnodd asesu'n berffaith ac am y rheswm hwnnw mae'n bwysig bod yr ACP yn cael ei ddefnyddio yn ei gyd-destun. Ni all ddisodli barn broffesiynol ynghylch p'un a yw holl anghenion unigolyn yn dangos pedair nodwedd allweddol angen iechyd sylfaenol ac ni ddylai wneud hynny. Mae ond yn helpu timau amlddisgyblaethol i ddangos eu bod wedi gwneud eu penderfyniadau mewn modd rhesymegol a chyson.
4. Mae gwybodaeth am GIP ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru

*Noder: Bwriedir i'r ddogfen hon fod mor glir a hygyrch â phosibl i unigolion sy'n cael asesiad ar gyfer GIP, a/neu eu cynrychiolydd/cynrychiolwyr a all fod yn aelodau o'r teulu neu'n ofalwyr neu unrhyw gynrychiolydd arall y bydd unigolyn yn ei ddewis i'w gefnogi. Fodd bynnag, er mwyn bod yn fanwl gywir o safbwynt meddygol, defnyddir rhai geiriau na fyddant yn ddealladwy ar unwaith i rywun nad yw wedi'i hyfforddi'n broffesiynol. Rhaid i'r Cydgysylltydd Gofal sicrhau bod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd, (lle y rhoddir cydsyniad), yn deall yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu am ei anghenion asesedig ac yn cytuno â hyn a bod cymorth eirioli yn cael ei gynnig.*

*Lluniwyd Llyfryn Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr i roi cyngor, gwybodaeth a chanllaw cam wrth gam i unigolion ar broses GIP. Rhaid i'r Cydgysylltydd Gofal sicrhau bod unigolion yn cael y llyfryn hwn ar ddechrau proses asesu GIP. Mae'r llyfryn ar gael yn ar* ***dudalennau gwe Llywodraeth Cymru***

***Adnodd cenedlaethol yw'r ACP ac ni ddylid newid y cynnwys, ychwanegu ato na'i dalfyrru mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, gall Byrddau Iechyd Lleol atodi eu logo a manylion adnabod cleifion ychwanegol os oes angen (e.e. drwy ychwanegu rhif y GIG, ac ati).***

**RHEOLAETH FERSIWN: FERSIWN 2 CYHOEDDWYD MAWRTH 2022**

**Mân newidiadau i sicrhau cysondeb enwau Meysydd a newid geiriad y disgrifiad ar gyfer Maes Gwybyddiaeth – Lefel Uchel o Angen.**

# Nodiadau i Ddefnyddwyr

**Mae'n rhaid i ymarferwyr fod yn gwbl ymwybodol o egwyddorion sylfaenol Fframwaith 2021 cyn cael asesiad GIP.**

## EGWYDDORION SYLFAENOL

### Egwyddor 1: Rhoi pobl yn gyntaf

Mae angen i'r unigolion sy'n troi at ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol pan fo ganddynt anghenion cymhleth wybod a phrofi mai eu budd pennaf a'u hawliau hwy yw prif ystyriaeth y bobl sy'n eu hasesu a'u cefnogi ac yn gwneud penderfyniadau. Bydd hyn i'w weld yn y parch a'r urddas a ddangosir iddynt fel unigolion. Mae gan unigolion sydd ag angen iechyd sylfaenol hawl i gael arian GIP. Felly, dylent deimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses o benderfynu a ydynt yn gymwys a bod yn hyderus y byddant yn cael gofal o'r ansawdd sy'n ofynnol i ddiwallu eu hanghenion.

### Egwyddor 2: Uniondeb y broses benderfynu

Mae aelodau'r Tîm Amlddisgyblaethol (TA) **(gwybodaeth bellach yn Adran 2 o Fframwaith 2021)** yn gyfrifol am uniondeb eu hasesiadau, cyngor proffesiynol arbenigol a phenderfyniadau a ddylai gael eu tanategu gan resymeg glir. Y TA sy'n gwneud argymhellion ar gymhwysedd a dim ond yn ystod y cam sicrhau ansawdd mewn amgylchiadau eithriadol, ac am resymau a nodir yn glir, y gellir eu herio. Ni ddylid defnyddio'r broses hon fel swyddogaeth porthgadw nac ar gyfer rheolaeth ariannol. Ni ddylai'r penderfyniad i beidio â derbyn argymhelliad y TA byth gael ei wneud gan un person sy'n gweithio'n unochrol. Dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch cymhwysedd fod yn annibynnol ar gyfyngiadau ariannol, ac ni ddylai swyddogion cyllid fod yn rhan o'r broses benderfynu.

### Egwyddor 3: Dim penderfyniadau amdanaf heb yn wybod i mi

Unigolion eu hunain yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain. Rhaid eu cynnwys hwy a/neu eu gofalwyr (boed yn rhai â thâl neu'n rhai di-dâl) fel cyd-gynhyrchwyr wedi'u grymuso yn ystod y broses asesu a chynllunio gofal. Rhaid iddynt gael eu gwahodd i gymryd rhan a chymryd rhan lawn mewn unrhyw asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth. Pan fo canlyniadau ariannol neu emosiynol i'r opsiynau gofal sydd ar gael, ni ddylai gweithwyr proffesiynol osgoi cael sgyrsiau gonest ac aeddfed gyda'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd. Rhaid i weithwyr proffesiynol gofio efallai y bydd angen i rai unigolion gael cymorth neu eiriolaeth er mwyn mynegi eu dymuniadau, eu teimladau a'u dyheadau. Mae gan unigolion neu eu cynrychiolwyr yr hawl i benderfynu eu hunain gan bwy y byddent yn hoffi cael cymorth neu eiriolaeth.

### Egwyddor 4: Dim oedi cyn diwallu anghenion unigolyn oherwydd trafodaethau am ariannu

Ni ddylai'r unigolyn brofi unrhyw oedi cyn i'w anghenion gael eu diwallu am nad yw asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Rhaid ystyried opsiynau cydariannu a chyllidebau cyfun os gall y rhain hyrwyddo ymatebion cyflymach ac, o ganlyniad i hynny, mwy effeithlon i anghenion a dewisiadau unigolyn. Mae cyfrifoldeb ar gomisiynwyr i ddatrys pryderon/anghydfodau cyn gynted â phosibl drwy roi protocolau lleol perthnasol ar waith fel y nodir yn y broses anghydfodau yn **Adran 7** o Fframwaith 2021.

### Egwyddor 5: Deall y diagnosis; canolbwyntio ar yr angen

Nid yw pobl yn eu diffinio'u hunain yn ôl eu diagnosis meddygol na chlinigol ac ni ddylai'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi wneud hynny ychwaith. Rhaid i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio er mwyn meithrin dealltwriaeth gyfannol o angen a'r effaith ar fywyd dyddiol yr unigolyn. Dylai unrhyw gamau asesu, trin a chynllunio/comisiynu gofal tymor hwy geisio darparu cymorth o ansawdd sydd wedi'i deilwra, sy'n cefnogi annibyniaeth cymaint â phosibl ac sy'n canolbwyntio ar y pethau pwysicaf ym marn yr unigolyn a'i ofalwyr.

### Egwyddor 6: Gofal cydgysylltiedig a pharhad

Mae gofal tameidiog yn peri pryder, yn anniogel ac yn gostus. Gall arwain at newid diangen i drefniadau byw, sydd yn ei dro yn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd. Rhaid gwneud pob ymdrech i osgoi tarfu ar drefniadau gofal lle bynnag y bo'n bosib, neu i ddarparu trefniadau pontio esmwyth a diogel pan fo angen newid er budd pennaf yr unigolyn. Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal drwy Daliadau Uniongyrchol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r bwrdd iechyd gydweithio ag ef gyda'r bwriad o gyd-gynhyrchu a gwneud pob ymdrech i gynnal parhad y personél sy'n darparu'r gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny.

Rhaid bod gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd gyswllt a enwir y gall droi ato am gyngor a chymorth, a all gydgysylltu ymateb cyflym i unrhyw newid mewn angen.

### Egwyddor 7: Cyfathrebu

Cyfathrebu gwael sydd wrth wraidd y mwyafrif llethol o gwynion, pryderon ac anghydfodau. Mae'n annerbyniol i weithwyr proffesiynol honni nad oes ganddynt amser i gyfathrebu - bydd yn cymryd mwy o amser i unioni'r sefyllfa'n nes ymlaen a byddant wedi colli ymddiriedaeth. Yn ôl natur y rhyngweithio, bydd angen cyfathrebu'n glir â'r unigolion sy'n ceisio ein help a'u gofalwyr.

Felly, rhaid cyfathrebu â'r unigolyn neu ei gynrychiolydd yn ei ddewis iaith/fformat neu ddull. Mae hyn yn cynnwys yr holl gyfathrebu llafar ac ysgrifenedig drwy gydol y broses gymhwyso, gan gynnwys y defnydd o'r Rhestr Wirio, ACP a phrosesau Llwybr Carlam, a'r gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir.

Caiff unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu grymuso os gallant siarad â staff yn eu dewis iaith. Mae'n bwysig cydnabod bod y cysyniad o iaith yn elfen hanfodol o ofal unigolyn a'i allu i gymryd rhan ym mhob agwedd arno fel partner cyfartal. Mae cyfathrebu effeithiol yn elfen allweddol o waith asesu ac unrhyw gymorth a ddarperir. Yng Nghymru, mae'n rhaid cynnig gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Awgryma'r dystiolaeth ei bod hi'n well gan ddefnyddwyr BSL gyfathrebu'n uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol a all gyfathrebu'n rhugl mewn BSL wrth drafod anghenion gofal a chymorth. Mae llawer o ALlau yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol arbennig sy'n gweithio gyda phobl fyddar ac yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio BSL. Mewn achosion pan na all gweithwyr proffesiynol gyfathrebu'n uniongyrchol gan ddefnyddio BSL, bydd yn rhaid defnyddio dehonglwyr yn uniongyrchol neu drwy gyswllt cyfrifiadur fideo.

Bydd angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n asesu anghenion pobl ag anawsterau lleferydd a chyfathrebu difrifol ganfod beth yw dull cyfathrebu dewisol yr unigolyn cyn dechrau'r asesiad. Efallai y bydd angen cymorth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technoleg Gynorthwyol Electronig er mwyn helpu i gynnal asesiadau sy'n ymwneud yn benodol â chyfathrebu.

Ni ddylai'r unigolyn brofi unrhyw oedi wrth gael ei asesiad na gofal a chymorth, ni waeth yr iaith/fformat neu'r dull o gyfathrebu a ddefnyddir drwy gydol proses gymhwyso GIP.

Rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch cymhwysedd gael ei esbonio'n glir ac yn broffesiynol i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd, a hynny yn ei ddewis iaith. Gweler **Cyfleu'r Penderfyniad ynghylch Cymhwysedd yn Adran 4 o Fframwaith 2021**.

## PROSES

5. Mae’r broses o asesu a phenderfynu a yw unigolion yn gymwys i gael GIP yn cael ei disgrifio’n fanwl yn **Adran 4** o Fframwaith 2021. Dylai'r TAau gyfeirio at y ddogfen honno'n uniongyrchol. **<u>Ni chaiff</u>** y cynnwys ei ailadrodd yn yr ACP.
6. Rhaid i drafodaethau ynghylch anghenion unigolyn, ynghyd ag unrhyw ystyriaeth o gymhwysedd i gael GIP, gan gynnwys defnyddio'r ACP, gael eu cynnal mewn cyfarfod ffurfiol o'r TA. Rhaid gwahodd yr unigolyn neu ei gynrychiolydd i'r cyfarfod hwn er mwyn chwarae rhan lawn yn y broses o gwblhau'r ACP.
7. Nid yw'r ACP ynddo'i hun yn asesiad, ac nid yw'n disodli barn broffesiynol ynghylch p'un a yw anghenion cyffredinol unigolyn, y rhyngweithio rhwng ei anghenion, a'r dystiolaeth o asesiadau risg perthnasol yn dangos pedair nodwedd allweddol angen iechyd sylfaenol.
8. Caiff yr ACP ei gwblhau yn dilyn asesiad cynhwysfawr y TA a gwerthusiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolyn a'i ganlyniadau dymunol. Caiff ei ddefnyddio i helpu'r TA i gofnodi tystiolaeth mewn fformat ymarferol unigol, sy'n dangos ei fod wedi

rhoi argymhelliad rhesymegol, cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith o ran cymhwysedd i gael GIP.

9. Rhaid i bob rhan o'r ACP gael ei chwblhau gan TAau sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn unol â'r canllawiau a nodir yn Fframwaith 2021.

10. Mae'r ACP wedi'i rannu'n ddwy; y Nodiadau i Ddefnyddwyr, sy'n nodi canllawiau ar sut i ddefnyddio'r ACP. Y TA ddylai gwblhau'r ail ran, sef **Adrannau 1 - 4**. Dylid anfon copi o **Adrannau 1 - 4** o'r ACP wedi'u cwblhau (gan gynnwys yr argymhelliad) at yr unigolyn (neu, lle y bo'n briodol, ei gynrychiolydd) ynghyd â'r penderfyniad terfynol a wnaed gan y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl), gan gynnwys y rhesymeg dros benderfyniad y BILl.

## CYDSYNIAD

11. Ymdrinnir â'r maes hwn yn fanylach yn **Adran 3** o Fframwaith 2021.

12. Os oes gan yr unigolyn dan sylw y galluedd i gydsynio, dylid cael ei gydsyniad ar sail gwybodaeth cyn cwblhau'r ACP (os nad yw cydsyniad ar sail gwybodaeth eisoes wedi'i sicrhau ar adeg cwblhau'r Rhestr Wirio). Mae angen i'r cydsyniad hwn gwmpasu cwblhau'r ACP a rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r achos.

13. Os oes pryder nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio i'r broses asesu nac i wybodaeth gael ei rhannu, dylid penderfynu ar hyn yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r cod ymarfer cysylltiedig. Efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau ‘budd pennaf’, gan gofio bod disgwyl i bawb a all fod yn gymwys i gael GIP gael y cyfle i gael asesiad o gymhwysedd.

14. Nid yw'r ffaith bod unigolyn yn ei chael hi'n anodd iawn mynegi ei farn yn golygu nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad. Dylid sicrhau bod cymorth ac addasiadau priodol ar gael yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a deddfwriaeth cydraddoldeb.

15. Bydd protocolau rhannu data cadarn, mewn sefydliadau a rhyngddynt, yn helpu i sicrhau y caiff cyfrinachedd ei barchu tra bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i gwblhau'r ACP. (Gweler **Cyfleu'r Penderfyniad / Rhannu Gwybodaeth ym mharagraffau 64 i 67.**

## ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL YM MHROSES GYMHWYSO GIP

16. Wrth weithredu'r egwyddorion a nodir isod, mae gan bawb dan sylw rolau a chyfrifoldebau allweddol i'w cyflawni. Maent yn cynnwys y canlynol:

### Yr unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu

17. Mae'n hanfodol bod yr unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu yn ganolog i'r broses asesu a chynllunio gofal, fel y nodir yn **Egwyddor 3** uchod. Yr unigolyn hwnnw yw'r arbenigwr ar ei fywyd a'i sefyllfa ei hun. Yn ôl ei natur, caiff yr asesiad ei ysgogi'n aml gan salwch neu ddigwyddiad bywyd arall a rhaid i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw wneud pob ymdrech i helpu'r unigolyn i gymryd rhan mewn trafodaethau a fydd yn effeithio ar ei ddyfodol. Dibynnir ar yr unigolyn i roi gwybodaeth onest, mynegi ei farn a'i ddyheadau, a dweud yn glir os oes angen esboniad pellach arno neu os oes materion y mae angen i'r tîm eu deall er mwyn diwallu ei anghenion yn effeithiol.

18. Drwy gydol proses asesu GIP, gall yr unigolyn ddewis cael cynrychiolydd i'w gefnogi, neu siarad neu weithredu ar ei ran, ar sail ffurfiol neu anffurfiol, gan gynnwys mewn unrhyw gyfarfodydd y maent yn cymryd rhan ynddynt. Gall y cynrychiolydd fod yn aelod o'r teulu, ei ofalwr neu gynrychiolydd arall o'i ddewis.

19. Bydd cynrychiolydd yr unigolyn yn chwarae rôl bwysig wrth ei gefnogi ac mae'n rhaid i'r gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech i hwyluso'i gyfranogiad. Er mwyn cyflawni'r canlyniad gorau posibl i'r unigolyn, gan gynnwys cymorth i ymadfer a chadw ei annibyniaeth, bydd disgwyl i ofalwyr/perthnasau/cynrychiolwyr ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth a/neu gymryd rhan yn y cyfarfod amlddisgyblaethol yn amserol. Os oes nifer o berthnasau dan sylw, dylid enwebu prif unigolyn cyswllt a fydd yn gyfrifol am gyfathrebu â'r perthnasau eraill. Mae rhagor o wybodaeth am gyfarfod y TA ar gael ym **mharagraffau 38 i 38.**

### Lle nad oes gan yr unigolyn alluedd, ond mae ganddo gynrychiolydd awdurdodedig

20. Lle y nodwyd nad oes gan yr unigolyn alluedd i gydsynio nac i gymryd rhan effeithiol yn y broses benderfynu, gall cynrychiolydd weithredu ar ei ran os oes ganddo'r awdurdod priodol fel y nodir yn **Adran 3** o Fframwaith 2021. Gall y cynrychiolydd awdurdodedig ddewis cael ei gefnogi gan eiriolwr neu gynrychiolydd o'i ddewis.

### Rôl y teulu / gofalwr neu gynrychiolydd arall pan fydd penderfyniad 'Budd Pennaf' yn cael ei wneud

21. Lle nad oes gan yr unigolyn alluedd i wneud penderfyniadau, ac nad oes cynrychiolydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau ar ei ran, fel y nodir yn **Adran 3 o Fframwaith 2021**, dylai'r BILl wneud penderfyniad 'budd pennaf' ynghylch anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Pan fo angen gwneud penderfyniad 'budd pennaf', rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn unrhyw drydydd parti perthnasol sydd â buddiant gwirioneddol yn lles yr unigolyn hwnnw (os yw'n rhesymol ac yn ymarferol ymgynghori ag ef). Bydd hyn yn cynnwys y teulu, ffrindiau ac eiriolwyr fel arfer. Gall unigolyn ddewis cael aelod o'r teulu neu berson arall, a ddylai weithredu'n annibynnol ar BILlau ac ALlau, i weithredu fel eiriolwr ar ei ran.

22. Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad gofio bod angen parchu cyfrinachedd ac ni ddylai rannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon onid ystyrir bod gwneud hynny er budd pennaf yr unigolyn at ddibenion yr asesiad o gymhwysedd i gael GIP. Os bydd yr unigolyn wedi gwneud ‘datganiad ymlaen llaw’ sy'n nodi nad yw am i wybodaeth bersonol gael ei rhannu ag unigolion penodol, dylid ystyried hyn wrth asesu beth i'w wneud er budd pennaf yr unigolyn.

23. Er bod yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn trydydd partïon perthnasol, nid oes gan y rhai yr ymgynghorir â nhw (gan gynnwys aelodau o'r teulu) yr awdurdod i gydsynio, neu wrthod cydsynio, i'r camau gweithredu a gynigir o ganlyniad i'r broses 'budd pennaf'. Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad sy'n gyfrifol am y penderfyniad, nid y rhai yr ymgynghorir â nhw. Pan fo gwahaniaeth barn rhwng y sawl sy'n gwneud y penderfyniad a'r rhai yr ymgynghorir â nhw, dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys hyn yn anffurfiol. Fodd bynnag, ni ddylai'r broses hon beri gormod o oedi cyn gwneud penderfyniadau amserol er budd pennaf yr unigolyn.

24. Ni all yr unigolyn na'i gynrychiolwyr fod yn aelodau o'r TA. Fodd bynnag, rhaid iddo gael cyfle i gymryd rhan lawn ym mhroses GIP a chael cyfle i fod yn bresennol yng nghyfarfod y TA lle bydd yr ACP yn cael ei gwblhau er mwyn iddo allu cymryd rhan lawn yn y broses o'i lenwi, a hynny fel partner cyfartal.

25. Felly, mae'n rhaid i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd gael rhybudd rhesymol am gyfarfod y TA lle bydd yr ACP yn cael ei gwblhau er mwyn ei alluogi i fod yn bresennol, gan ystyried ei amgylchiadau personol. Os na fydd yn dymuno bod yn bresennol, lle rhoddir cydsyniad, dylid gofyn iddo am ei sylwadau a'i wybodaeth a'u hystyried wrth gwblhau'r ACP.

26. Dylai'r gwaith o gwblhau'r ACP gael ei drefnu fel bod yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn deall y broses ac yn cael gwybodaeth a chymorth i'w alluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch y gofal a'r cymorth a roddir iddo yn y dyfodol. Dylai'r rhesymau dros unrhyw benderfyniadau fod yn dryloyw a dylid eu dogfennu'n glir.

27. Yn **Adran 1 (2)** o'r ACP, dylai'r TA gofnodi safbwyntiau'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd ar ei anghenion gofal, ac a yw o'r farn bod asesiad y TA wedi adlewyrchu ei anghenion yn gywir.

28. Yn **Adran 1 (3)** dylid nodi p'un a gyfrannodd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd at yr asesiad o'i anghenion ac, os felly, ym mha ffordd y cyfrannodd ato. Os na chymerodd ran yn yr asesiad, rhaid cofnodi p'un a gafodd wahoddiad ai peidio neu a wnaeth wrthod cymryd rhan.

## Rôl y Cydgysylltydd Gofal/Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol

29. Y Cydgysylltydd Gofal yw'r unigolyn penodedig sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses gyfan o asesu gofal tymor hwy. Mae'n atebol am sicrhau bod y broses asesu wedi'i

llunio ar y cyd, yn gadarn ac yn amserol. Rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses, a'u cynnwys yn llawn mewn trafodaethau am ei ofal.

30. Mae'r Cydgysylltydd Gofal yn fwyaf tebygol o fod yn weithiwr iechyd proffesiynol a bydd yn bwysig sicrhau parhad, er enghraifft, os oes gan yr unigolyn glefyd sy'n gwaethygu a gweithiwr proffesiynol allweddol arbenigol. Byddai'r dull hwn o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn awgrymu y gall hefyd fod yn dderbyniol i weithiwr cymdeithasol sydd â chydberthynas hirsefydlog â'r unigolyn a'r teulu weithredu fel Cydgysylltydd Gofal. Byddai hyn yn amodol ar gytundeb rhyngasiantaethol, gyda'r penderfyniad terfynol ynghylch pwy fydd yn gweithredu fel y Cydgysylltydd Gofal yn cael ei wneud gan y BILl.

31. Gellir cyfeirio at rôl y ‘Cydgysylltydd Gofal’ fel y Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol. Defnyddiwn y term ‘Cydgysylltydd Gofal’ yn y ddogfen hon ond mae'n cwmpasu swyddogaeth y Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol hefyd. Nodwn fod i'r term ‘Cydgysylltydd Gofal’ ystyr benodol mewn perthynas â chynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl. Er y gall yr un gweithiwr proffesiynol hefyd gydgysylltu'r asesiad ar gyfer GIP, swyddogaethau gwahanol ydynt. Os bydd y Cydgysylltydd Gofal yn newid, dylid dilyn trefniadau ffurfiol i drosglwyddo'r wybodaeth berthnasol.

32. Mae rôl y Cydgysylltydd Gofal yn cynnwys:

- sicrhau y cafwyd cydsyniad
- nodi a sicrhau cyfranogiad holl aelodau priodol y TA
- sicrhau bod aelodau'r TA yn deall eu rôl yn yr asesiad cynhwysfawr a'u cyfraniad at y broses benderfynu;
- sicrhau bod gan yr unigolyn a'i gynrychiolydd/cynrychiolwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall yr asesiad a'r broses benderfynu a chyfrannu'n llawn atynt. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod cymorth eirioli ar gael os bydd ei angen.
- sicrhau y caiff yr holl asesiadau eu coladu mewn un man a'u bod o ansawdd digonol i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ategu proses benderfynu deg a rhesymegol
- sicrhau bod amserlen glir ar gyfer y broses benderfynu a bod y broses yn cydymffurfio â gofynion y Fframwaith hwn
- sicrhau y caiff cyngor arbenigol y TA i'r BILl ar gymhwysedd a'r rhesymeg ei gofnodi'n glir a'i gyfleu i'r partïon angenrheidiol, gan gynnwys yr unigolyn neu ei gynrychiolydd
- cysylltu â'r unigolyn neu ei gynrychiolydd/cynrychiolwyr o fewn 48 awr i gyfarfod y TA lle y penderfynwyd ar gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP. Diben hyn yw sicrhau eu bod yn deall y canlyniad yn llawn ac ateb unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt ar ôl ystyried y canlyniad.

- sicrhau cydymffurfiaeth â phrotocolau lleol gan gynnwys trefniadau sicrhau ansawdd ac, os bydd angen, brosesau datrys anghydfodau ac apelio, cyn uwchgyfeirio'r achos at y lefel reoli nesaf.

33. Mae cyfrifoldebau penodol o safbwynt yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn cynnwys:

- sefydlu dewis iaith, fformat neu ddull cyfathrebu'r unigolyn neu ei gynrychiolydd cyn gynted ag yr ystyrir y gall fod gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ac y gall fod yn gymwys i gael GIP;
- darparu'r Llyfryn GIP i Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr cyn gynted ag yr ystyrir y gall fod gan yr unigolion angen iechyd sylfaenol ac y gall fod yn gymwys i gael GIP;
- esbonio amserlenni a cherrig milltir allweddol, gan gynnwys amserlenni adolygu
- rhoi gwybod iddo pa unigolion eraill sy'n debygol o gymryd rhan yn y broses
- ei hysbysu am unrhyw oedi posibl
- darparu sianel gyfathrebu glir rhwng yr unigolyn neu ei gynrychiolydd/cynrychiolwyr a'r TA

34. Ceir disgrifiad manwl o swyddogaeth y Cydgysylltydd Gofal yn **Atodiad 2 i Fframwaith 2021**.

### Rôl aelodau'r Tîm Amlddisgyblaethol

35. Mae aelodau tîm amlddisgyblaethol (TA) yn gyfrifol am weithio gyda'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr i gynnal asesiad trylwyr a gwrthrychol o'i anghenion, rhoi cyngor arbenigol i'r BILl ar gymhwysedd yr unigolyn i gael GIP a gwneud argymhellion ynghylch y lleoliad a'r set sgiliau sy'n ofynnol i weithredu'r cynllun gofal a gyd-gynhyrchwyd.

36. Mae'r TA yn cydweithio i goladu ac adolygu'r wybodaeth berthnasol am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr unigolyn. Mae'r TA yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn helpu i nodi anghenion unigolyn yn gliriach, drwy gwblhau'r ACP (**ACP gweler paragraffau 58 i 63**) ac wedyn yn cydweithio i lunio barn broffesiynol ar b'un a yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP, a adlewyrchir yn ei argymhelliad. Gelwir y broses hon yn asesiad amlddisgyblaethol o gymhwysedd i gael GIP.

37. Mae aelodau’r TA yn gyfrifol am uniondeb eu hasesiadau, cyngor proffesiynol a phenderfyniadau a ddylai gael eu tanategu gan resymeg glir. Gellir herio ansawdd eu hasesiad, er enghraifft os oes bylchau yn y wybodaeth sydd ei hangen. Ni ddylid pwyso arnynt i newid eu barn broffesiynol oherwydd cyfyngiadau ariannol.

38. Mae cyfrifoldeb ar Gadeirydd y TA, y mae'n rhaid iddo fod yn un o'r aelodau a nodir isod, i sicrhau bod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd fel petai'n gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod cyfarfod y TA, ei fod yn cael ei gynnwys yn y drafodaeth a'i fod wedyn yn deall y rhesymeg dros y penderfyniad a wneir.

### Aelodau'r TA

39. Mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n cyfrannu at y broses hon y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol. Mae'n RHAID i aelodau'r TA gynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd wrthi'n asesu, adolygu, trin neu gefnogi'r unigolyn, neu wedi gwneud hynny'n ddiweddar, a all gyfrannu at y broses asesu mewn ffordd ystyrlon, oni fydd amgylchiadau eithriadol. Bydd hyn yn rhoi hyder i'r unigolyn fod y TA sy'n rhan o'r trafodaethau ynghylch argymhellion yn deall ei anghenion. Fel isafswm, rhaid i'r TA gynnwys y canlynol:

    - o leiaf ddau weithiwr proffesiynol, sydd â gwybodaeth uniongyrchol am yr unigolyn a'u hanghenion, o broffesiynau gofal iechyd gwahanol, h.y. nyrsys, meddygon teulu neu feddygon ymgynghorol, therapyddion galwedigaethol, arbenigwyr eraill, e.e. Arbenigwyr Therapi Lleferydd ac Iaith / Ymddygiad (oni bai mai dim ond un person sydd â'r wybodaeth berthnasol
    - gweithiwr cymdeithasol

    A gall hefyd gynnwys y canlynol lle y bo'n briodol:

    - Staff cartrefi gofal
    - Staff gofal cartref

40. Nid yw'n briodol i uwch-reolwyr na rheolwyr cyllid o'r BILl na'r ALl fod yn bresennol yng nghyfarfod y TA, am unrhyw reswm.

41. Dim ond er mwyn pennu angen iechyd sylfaenol y cynhelir cyfarfod y TA. **Rhaid peidio** â thrafod unrhyw anghydfod rhwng y BILl a'r ALl am gomisiynu gwasanaethau neu gyllid yng nghyfarfod y TA. Dylai'r anghydfod hwn gael ei ddatrys gan ddilyn y broses datrys anghydfodau a nodir yn y Fframwaith.

### Cwblhau'r ACP

42. Wrth gwblhau'r ACP, dylai'r TA **(gweler paragraffau 35 i 38)** ddefnyddio'r ACP er mwyn ei helpu i ystyried, nid yn unig anghenion cyffredinol yr unigolyn, ond y modd y mae'r anghenion hyn yn rhyngweithio â'i gilydd a thystiolaeth o asesiadau risg perthnasol. **Ni** ddylid cwblhau'r ACP heb asesiad amlddisgyblaethol o anghenion.

43. Mae'r ACP yn darparu dull gweithredu sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer ymarferwyr drwy gyfleu angen yn seiliedig ar 12 o 'feysydd gofal' (gan gynnwys maes agored ar gyfer anghenion na ellir eu cynnwys yn hawdd yn yr 11 o barthau eraill). Mae pedair adran i'r adnodd:

    - Adran 1 – Manylion personol.
    - Adran 2 – Meysydd gofal.
    - Adran 3 – Argymhellion.
    - Adran 4 – Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

44. Dylai'r dogfennau fod yn drefnus e.e. eu coladu mewn un ffolder neu adran o nodiadau'r unigolyn, er mwyn sicrhau y gellir nodi'r broses GIP a'r canlyniadau'n hawdd drwy ddefnyddio trywydd archwilio clir. Os yw BILl yn defnyddio cofnodion electronig, mae'n rhaid cymhwyso'r un egwyddorion, h.y. mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei threfnu a'i choladu'n un ffolder er mwyn sicrhau bod modd cynnal gwiriadau priodol i gadarnhau bod y broses yn cael ei dilyn a bod canlyniadau yn hawdd eu nodi.

**Y Defnydd o Feysydd Gofal**

45. Bwriedir i'r ACP sicrhau y caiff yr holl ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd unigolyn i gael GIP eu hystyried wrth wneud y penderfyniad, waeth beth fo'r grŵp cleientiaid na'r diagnosis. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r ACP i ddwyn yr amrywiol anghenion mewn 12 o ‘feysydd gofal’, neu feysydd angen cyffredinol, ynghyd a'u cofnodi. Mae pob maes wedi'i rannu'n nifer o lefelau. Mae'r lefelau yn cynrychioli hierarchaeth o'r lefel isaf i'r lefel uchaf bosibl o angen (a chymorth sydd ei angen) fel y dylai fod modd, waeth beth fo lefel yr angen o fewn maes penodol, ei leoli o fewn y disgrifyddion a ddarperir. Y meysydd yw:

- Anadlu
- Maeth
- Ymataliaeth
- Iechyd Croen
- Symudedd
- Cyfathrebu
- Gwybyddiaeth
- Anghenion Seicolegol ac Emosiynol
- Ymddygiad
- Therapïau Cyffuriau a Meddyginiaeth
- Cyflyrau Ymwybyddiaeth Newidiedig
- Anghenion Gofal Sylweddol Eraill.

46. Dylai cwblhau'r ACP roi darlun cynhwysfawr o anghenion yr unigolyn sy'n nodi eu natur, pa mor gymhleth a dwys ydynt a/neu pa mor anodd ydynt i'w rhagweld - ac felly ansawdd a/neu lefel (gan gynnwys parhad) y gofal sydd ei angen i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Dengys Ffigur 1 sut y gall meysydd yn yr ACP ddangos (yn unigol a thrwy'r ffordd y maent yn rhyngweithio) gymhlethdod a dwyster anghenion a/neu pa mor anodd ydynt i'w rhagweld. Mae'r darlun cyffredinol, a'r disgrifyddion o fewn y meysydd eu hunain, hefyd yn ymwneud â natur anghenion.

***Rhaid canolbwyntio ar gynnal asesiad cyflawn a chyfannol o'r unigolyn yn hytrach na lefelau angen ACP ar eu pen eu hunain.***

## Asesu lefelau angen

47. Mae pob maes wedi'i isrannu'n ddatganiadau o anghenion sy'n cynrychioli dim anghenion (‘Dim’ yn y tabl isod), isel (I), cymedrol (C), uchel (U), difrifol (D) neu flaenoriaeth (B), yn dibynnu ar y maes (gweler Ffigur 1). Nodir eu disgrifyddion manwl yn y 12 o dablau meysydd i'w cwblhau yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

48. Mae'r disgrifyddion yn yr ACP yn enghreifftiau o'r mathau o angen a all fod yn bresennol. Dylid eu hystyried yn ofalus ond efallai na fyddant yn disgrifio amgylchiadau pob unigolyn yn ddigonol bob amser. Disgwylir i aelodau'r TA ddod i gasgliad ar y cyd ynghylch lefel yr angen ym mhob un o'r meysydd ac, felly, ynghylch p'un a yw' r unigolyn yn gymwys i gael GIP.

49. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, os bydd yn anodd penderfynu neu gytuno ar y lefel, dylai'r TA ddewis yr uchaf o'r lefelau sy'n cael eu hystyried a chofnodi'r dystiolaeth mewn perthynas â'r penderfyniad ac unrhyw wahaniaeth barn bwysig a pha ymarferwyr sy'n arddel y safbwyntiau gwahanol. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chrynhoi o fewn yr argymhelliad cyffredinol. Rhaid peidio â chofnodi bod gan unigolyn anghenion sydd rhwng lefelau. Mae'n bwysig bod gwahaniaeth barn ar y lefel briodol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ac nid ar ragdybiaethau ynghylch anghenion unigolyn na thybiaethau cyffredinol ynghylch effeithiau cyflwr penodol.

50. Mae'n bwysig y caiff geiriad lefelau meysydd eu hystyried yn ofalus ac na wneir tybiaethau. Nid yw'r ffaith bod gan unigolyn gyflwr a ddisgrifir fel un ‘difrifol’ o reidrwydd yn golygu y dylid ei roi ar lefel ‘ddifrifol’ y maes perthnasol. Yn yr un modd, nid yw'r ffaith bod asesiad risg yn nodi bod risg ‘uchel’ o reidrwydd yn golygu y dylid rhoi unigolyn ar lefel ‘uchel’ y maes perthnasol. Lefel y maes y mae ei ddisgrifiad yn cyd-fynd agosaf â'i anghenion y dylid ei dewis (er enghraifft, nid yw'r faith bod unigolyn yn cael ei ddisgrifio fel un sydd ag anableddau dysgu ‘difrifol’ o reidrwydd yn golygu y dylid ei roi ar lefel ‘ddifrifol’ maes Gwybyddiaeth).

51. Dylid defnyddio'r broses llwybr carlam bob amser ar gyfer unrhyw unigolyn â chyflwr sy'n dirywio'n gyflym a all fod yn mynd i mewn i gyfnod terfynol. Ar gyfer pobl eraill sydd â chyflwr sy'n dirywio'n arafach ac y gellir rhagweld yn rhesymol bod eu hanghenion, felly, yn debygol o gynyddu yn y dyfodol agos, dylai lefelau'r meysydd a ddewisir fod yn seiliedig ar anghenion cyfredol ond dylid cofnodi'r newid tebygol mewn anghenion yn y blwch tystiolaeth ar gyfer y maes hwnnw a'i ystyried yn yr argymhellion a wneir. Gallai hyn olygu y gwneir penderfyniad y dylent fod yn gymwys i gael GIP ar unwaith (e.e. cyn i'r dirywiad ddigwydd mewn gwirionedd) neu, os na wneir hynny, y rhoddir dyddiad ar gyfer adolygiad cynnar o'u hanghenion a'u cymhwysedd posibl. Barn broffesiynol sy'n seiliedig wybodaeth am ddatblygiad tebygol y cyflwr a ddylai benderfynu pa opsiwn a ddilynir.

52. Dylid cofio y gallai anghenion ar wahân mewn sawl maes fod yn gysylltiedig ag un cyflwr. Er enghraifft, bydd gan unigolyn â nam gwybyddol bwysoliad ym maes gwybyddiaeth ac, o ganlyniad, mae'n bosibl y bydd ganddo anghenion cysylltiedig

mewn meysydd eraill, y dylid cofnodi a phwysoli pob un ohonynt yn eu rhinwedd eu hunain.

53. Mae rhai meysydd yn cynnwys lefelau angen sydd mor fawr y gallent gyrraedd lefel 'blaenoriaeth' (a fyddai'n nodi angen iechyd sylfaenol), ond nid yw eraill yn cynnwys lefelau o'r fath. Mae hyn am yr ystyrir nad yw'r anghenion mewn rhai meysydd byth yn cyrraedd lefel lle y dylent nodi, ar eu pen eu hunain, fod unigolyn yn gymwys i gael GIP; yn hytrach byddent yn rhan o ystod o anghenion a allai, gyda'i gilydd, fod yn gyfystyr ag angen iechyd sylfaenol.

54. Ym mhob maes mae lle i gofnodi pam mae lefel benodol yn briodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael am yr anghenion a aseswyd. Mae'n bwysig y caiff anghenion eu disgrifio mewn ffyrdd mesuradwy, gan ddefnyddio arbenigedd clinigol, a'u hategu â chanlyniadau adnoddau asesu priodol a ddilyswyd lle y bo'n berthnasol.

55. Ni ddylid ymylu anghenion am eu bod yn cael eu rheoli'n llwyddiannus. Mae anghenion a reolir yn dda yn dal i fod yn anghenion. Dim ond os bydd y gwaith o reoli angen gofal iechyd yn llwyddiannus wedi lleihau angen parhaus yn barhaol neu wedi'i ddileu y bydd hyn yn effeithio ar gymhwysedd unigolyn i gael GIP. Fodd bynnag, mae ffyrdd gwahanol o adlewyrchu'r egwyddor hon wrth gwblhau'r ACP. Er enghraifft, os bydd ymyriadau seicolegol neu ymyriadau tebyg yn mynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol yn llwyddiannus, dylid ystyried yr angen presennol pe bai'r cymorth hwnnw'n cael ei dynnu'n ôl neu pe na bai ar gael mwyach a dylid adlewyrchu hyn ym maes Ymddygiad.

56. Ni fwriedir i'r egwyddor hon gael ei chymhwyso yn y fath fodd fel y dylid cofnodi cyflyrau iechyd corfforol a reolir yn dda fel pe na bai'r unigolyn yn cael meddyginiaeth na gofal na chymorth arferol arall. Er enghraifft, os bydd anghenion yn cael eu rheoli drwy roi meddyginiaeth i unigolyn (er mwyn diwallu anghenion ymddygiadol neu anghenion iechyd corfforol), efallai y bydd yn briodol adlewyrchu hyn ym maes Therapïau Cyffuriau a Meddyginiaeth. Yn yr un modd, os na fydd cyflwr croen rhywun yn cael ei waethygu gan y ffaith ei fod yn anymataliol am ei fod yn cael gofal ataliaeth da, ni fyddai'n briodol pwysoli maes croen fel pe na bai'r gofal ataliaeth yn cael ei ddarparu.

57. Gall fod amgylchiadau lle y bydd gan unigolyn anghenion penodol nas cwmpesir gan yr 11 cyntaf o feysydd gofal diffiniedig yn yr ACP. Yn y sefyllfa hon, y TA sy'n gyfrifol am nodi lefel yr anghenion a'r math o anghenion yn y 12fed maes "ychwanegol" a ddarperir a elwir yn 'Anghenion Gofal Iechyd Sylweddol Eraill' a'u cofnodi ac am ystyried hyn wrth benderfynu a oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol. Ni ddylid defnyddio'r ffaith bod y maes hwn ar gael i effeithio'n amhriodol ar y penderfyniad terfynol ynghylch a yw unigolyn yn gymwys i gael GIP.

**Ffigur 1: Sut mae'r meysydd gofal gwahanol wedi'u rhannu'n lefelau angen.**

CYMHLETHDOD

DWYSTER

ANODDDEURHAGWELD

DWYSTER

| Anadlu | Maeth | Ymataliaeth | Iechyd Croen | Symudedd | Cyfathrebu | Gwybyddiaeth | Anghenion Seicolegol ac Emosiynol | Ymddygiad | Therapïau Cyffuriau | Cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC) | Anghenion gofal sylweddol eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | | | | | | | | B | B | B | |
| D | D | | D | D | | D | | D | D | | D |
| U | U | U | U | U | U | U | U | U | U | U | U |
| C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C |
| I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I | I |
| D | D | D | DA | D | DA | DA | DA | DA | DA | DA | DA |

Allwedd: DA = Dim Anghenion I = Isel C = Cymedrol U = Uchel D = Difrifol B = Blaenoriaeth

## CWBLHAU'R ACP A NODI ANGEN IECHYD SYLFAENOL

58. Ar ddiwedd yr ACP, mae taflen gryno i roi trosolwg o'r lefelau a ddewiswyd a chrynodeb o anghenion yr unigolyn, ynghyd ag argymhelliad y TA ynghylch p'un a yw'n gymwys i gael GIP ai peidio. Disgwylid argymhelliad clir bod yr unigolyn yn gymwys i gael GIP o dan y ddau amgylchiad canlynol:

- Anghenion lefel **blaenoriaeth** mewn unrhyw un o'r pedwar maes lle y ceir y lefel hon.
- Cyfanswm o ddau neu fwy o achosion o anghenion **difrifol** a nodwyd ar draws yr holl feysydd gofal.

Pan geir y canlynol, gall hyn hefyd nodi bod angen iechyd sylfaenol y mae angen ei ystyried ymhellach:

- un maes y cofnodwyd ei fod yn ddifrifol, ynghyd ag anghenion mewn sawl maes arall, neu
- sawl maes ag anghenion uchel a/neu gymedrol.

59. O dan yr amgylchiadau hyn mae angen cofnodi rhesymau clir dros y penderfyniad ynghylch p'un a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol ai peidio. Ym mhob achos, dylid ystyried yr angen cyffredinol, y rhyngweithio rhwng anghenion mewn meysydd gofal gwahanol a'r dystiolaeth o asesiadau risg wrth benderfynu a ddylid argymell bod unigolyn yn gymwys i gael GIP. Serch hynny, atgoffir TAau, fel y'i pwysleisir drwy Fframwaith 2021, na ddylai'r penderfyniad ynghylch cymhwysedd fod yn seiliedig ar 'lefelau angen blychau ticio' yn unig.

60. Nid yw'n bosibl cyfartalu nifer o achosion ar un lefel â nifer o achosion ar lefel arall, er enghraifft 'mae dau angen cymedrol yn cyfateb i un angen uchel'. Mae'n rhaid i'r penderfyniad ynghylch a oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol fod yn seiliedig ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei amlygu am natur anghenion yr unigolyn a/neu pa mor gymhleth ydynt a/neu pa mor ddwys ydynt a/neu pa mor anodd ydynt i'w rhagweld.

61. Os cofnodir anghenion ym mhob maes fel **'dim anghenion'**, byddai hyn yn dynodi nad yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP. Os cofnodir pob maes fel **'lefel isel o angen'**, byddai hyn yn annhebygol o ddynodi bod yr unigolyn yn gymwys i'r gael. Fodd bynnag, am fod lefelau isel o angen yn gallu ychwanegu at y darlun cyffredinol, dylanwadu ar barhad y gofal sydd ei angen a newid yr effaith a gaiff anghenion eraill ar yr unigolyn, dylid cwblhau pob maes.

62. Dylai'r cydgysylltydd Gofal sicrhau bod pob rhan o'r ACP wedi'i hystyried. Rhaid cwblhau argymhelliad y TA ynghylch cymwys yr unigolyn i gael GIP (wedi'i gytuno/llofnodi gan aelodau'r TA) a'i anfon ymlaen i'r BILl er mwyn iddo sicrhau ansawdd y pecyn gofal a'i gomisiynu. Dylai'r Cydgysylltydd Gofal hefyd hysbysu'r unigolyn am yr amserlenni ar gyfer cadarnhau argymhelliad y TA a threfnu ei becyn gofal GIP (os bydd yn gymwys, dylai hyn fod o fewn 2 wythnos i ddyddiad y cyfarfod ACP oni fydd amgylchiadau eithriadol). (Gweler **Adran 4** o Fframwaith 2021).

63. Dylai'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb gael ei chwblhau gan yr unigolyn sy'n destun yr ACP, os bydd yr unigolyn yn cytuno i hyn. Os bydd angen cymorth ar yr unigolyn i gwblhau'r ffurflen, dylai gael ei drefnu gan y Cydgysylltydd Gofal. Dylai'r Cydgysylltydd Gofal anfon y ffurflen ymlaen i'r lleoliad priodol, yn unol â phrosesau perthnasol y BILl ar gyfer prosesu data cydraddoldeb.

## CYFLEU'R PENDERFYNIAD / RHANNU GWYBODAETH

64. Yn unol â'r gofynion a nodir yn Fframwaith 2021, dylid hysbysu'r unigolyn neu, lle y bo'n briodol, ei gynrychiolydd (gan ddibynnu ar yr awdurdod i gael a rhannu gwybodaeth), am y penderfyniad ynghylch cymhwysedd cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod y TA.

65. Os bydd rhywun yn gweithredu fel cynrychiolydd yr unigolyn bydd ganddo'r hawl i gael copi o'r ACP ar yr amod bod y sail gywir dros rannu gwybodaeth o'r fath wedi'i nodi. Gallai unrhyw un o'r canlynol fod yn sail dros rannu gwybodaeth:

    a) cydsyniad yr unigolyn dan sylw (os bydd ganddo'r galluedd i'w roi).
    b) cydsyniad dirprwy a benodwyd gan lys (iechyd a lles) neu rywun sydd ag Atwrneiaeth Arhosol (iechyd a lles) ar gyfer yr unigolyn hwnnw.
    c) penderfyniad "budd pennaf" i rannu gwybodaeth a wneir o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (os na fydd gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio i rannu gwybodaeth).

66. Os na fydd gan unigolyn y galluedd i gydsynio ond bod ganddo Atwrneiaeth Arhosol (eiddo a chyllid), dylid rhannu gwybodaeth (gan gynnwys copi o'r ACP a gwblhawyd) er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswydd o ran Atwrneiaeth Arhosol, oni fydd rhesymau cymhellol a chyfreithlon pam na ddylid gwneud hynny. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid ceisio cyngor.

67. Dylid cyfleu'r wybodaeth hon yn newis iaith yr unigolyn neu ei gynrychiolydd a dylai gynnwys:

    - y penderfyniad ynghylch yr angen iechyd sylfaenol ac, felly, p'un a yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP ai peidio
    - y rhesymau dros y penderfyniad
    - copi o'r ACP a gwblhawyd
    - manylion y sawl y dylid cysylltu ag ef os bydd rhagor o wybodaeth arno
    - sut i wneud cais am apêl ynghylch y penderfyniad ynghylch cymhwysedd os nad yw'n fodlon ar y penderfyniad

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG

## Adran 1 – Manylion Personol

**Dyddiad cwblhau'r Adnodd Cymorth Penderfynu** ______________________________

**Enw** | | **Dyddiad Geni** | |

**Rhif y GIG a Meddyg Teulu/Practis:**

| **Cyfeiriad Parhaol a Rhif Ffôn** | **Lleoliad lle cynhaliwyd asesiad y TA** |
|---|---|
| | |

**Rhywedd**______________________________

**SICRHEWCH FOD Y FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB AR DDIWEDD YR ACP WEDI'I CHWBLHAU**

*Dilëwch ateb fel y bo'n briodol*

A gafodd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd gopi o'r Llyfryn GIP i Unigolion, Teulu a Gofalwyr ar ddechrau'r broses GIP? **Do/Naddo**

A gymerodd yr unigolyn ran yn y broses o gwblhau'r ACP? **Do/Naddo**

A gafodd yr unigolyn gyfle i ofyn i gynrychiolydd megis aelod o'r teulu, gofalwr neu eiriolwr arall fod yn bresennol pan gwblhawyd yr ACP? **Do/Naddo**

Os do, a oedd y cynrychiolydd yn bresennol pan gwblhawyd yr ACP? **Oedd/Nac oedd**

A yw'r unigolyn yn derbyn taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd? **Ydy/Nac ydy**

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG

## Adran 1 – Manylion Personol

**<u>Manylion cyswllt cynrychiolydd yr unigolyn (enw, cyfeiriad a rhif ffôn)</u>**

### Crynodeb

1. Disgrifiad cryno o sefyllfa, hanes perthnasol ac anghenion cyfredol yr unigolyn, gan gynnwys crynodeb clinigol a risgiau sylweddol a nodwyd, a gafwyd o'r asesiad amlddisgyblaethol:

2. Nodwch farn yr unigolyn am ei anghenion gofal a ph'un a yw'n credu bod yr asesiad amlddisgyblaethol yn adlewyrchu'r rhain yn gywir.

| |
|---|
| |

3. Nodwch isod p'un a gyfrannodd yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd at yr asesiad o'i anghenion ac, os felly, ym mha ffordd y cyfrannodd ato. Os na chymerodd ran yn yr asesiad, nodwch p'un a yw hyn i'w briodoli i'r ffaith na chafodd wahoddiad neu ei fod wedi gwrthod cymryd rhan.

| |
|---|
| |

4. Rhestrwch yr asesiadau a thystiolaeth allweddol arall a ystyriwyd wrth gwblhau'r ACP, gan gynnwys dyddiadau'r asesiadau.

| |
|---|
| |

5. Enw/cyfeiriad/manylion cyswllt aelodau'r TA, gan nodi'r cydgysylltydd arweiniol:

| |
|---|
| |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG

## Adran 1 – Manylion Personol

6. Manylion cyswllt y meddyg teulu a gweithwyr proffesiynol allweddol eraill sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn.  Nodwch pa rai o'r rhain sydd wedi cyfrannu at yr asesiad o anghenion i'w ystyried gan y TA wrth gwblhau'r ACP hwn.

| |
|---|
| |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**1. Anadlu**: Fel gyda phob maes arall, dylid defnyddio maes anadlu i gofnodi anghenion yn hytrach na'r cyflwr sylfaenol a all arwain at yr anghenion. Er enghraifft, gall fod gan unigolyn glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, emffysema neu heintiau rheolaidd ar y frest neu gyflwr arall sy'n ei gwneud yn anodd iddo anadlu a'r anghenion sy'n gysylltiedig â chyflyrau o'r fath y dylid eu cofnodi.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch isod anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *1. Anadlu*

| **Disgrifiad** | **Lefel yr angen** |
|---|---|
| Anadlu arferol, dim problemau o ran diffyg anadl | Dim anghenion |
| Diffyg anadl a all olygu bod angen defnyddio anadlyddion neu nebiwleiddiwr ac nad yw'n effeithio ar weithgareddau byw o ddydd i ddydd.<br>**NEU**<br>Byliau o ddiffyg anadl sy'n gwella'n gyflym os cânt eu rheoli ac nad ydynt yn effeithio ar weithgareddau byw o ddydd i ddydd. | Isel |
| Diffyg anadl a all olygu bod angen defnyddio anadlyddion neu nebiwleiddiwr ac sy'n cyfyngu ar weithgareddau byw o ddydd i ddydd.<br>**NEU**<br>Byliau o ddiffyg anadl nad ydynt yn gwella os ceisir eu rheoli ac sy'n cyfyngu ar rai gweithgareddau byw o ddydd i ddydd.<br>**NEU**<br>Mae'n gofyn am unrhyw un o'r canlynol:<br>• therapi ocsigen lefel isel (24%).<br>• awyryddion ystafell drwy fwgwd wyneb neu drwyn.<br>• dyfeisiau therapiwtig eraill i gynnal llif yr awyr os gall unigolyn anadlu'n ddigymell o hyd e.e. CPAP (Pwysedd Cadarnhaol Parhaus ar y Llwybrau Anadlu) i reoli apnoea ataliol pan fydd yr unigolyn yn cysgu. | Cymedrol |
| Gall anadlu'n annibynnol drwy draceotomi y gall ei reoli ei hun, neu gyda chymorth gofalwyr neu weithwyr gofal.<br>**NEU**<br>Ddiffyg anadl oherwydd cyflwr nad yw'n ymateb i driniaeth ac sy'n cyfyngu ar bob gweithgaredd byw o ddydd i ddydd. | Uchel |
| Mae'n ei chael hi'n anodd anadlu, hyd yn oed drwy draceotomi, lle mae angen i'r unigolyn sugno er mwyn cynnal y llwybr anadlu.<br>**NEU**<br>Mae'n ei chael hi'n anodd iawn anadlu pan fydd yn gorffwys, er ei fod yn cael y therapi meddygol mwyaf posibl<br>**NEU**<br>Gyflwr y mae angen ei reoli drwy ddefnyddio dyfais anfewnwthiol i ysgogi a chynnal anadlu (pwysedd cadarnhaol deulefel ar y llwybr anadlu neu gymorth anadlu anfewnwthiol) | Difrifol |
| Ni all yr unigolyn anadlu'n annibynnol, mae angen cymorth anadlu mecanyddol mewnwthiol arno. | Blaenoriaeth |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**2. Maeth:** Dylai fod gan unigolion sy'n wynebu risg o ddiffyg maeth, diffyg hylif a/neu fewnsugno asesiad o’r anghenion hyn eisoes, neu dylid cynnal un fel rhan o’r broses asesu, gydag unrhyw ffactorau rheoli a risg yn cael eu cefnogi gan gynllun rheoli. Os bydd unigolyn wedi colli neu ennill pwysau sylweddol, dylid defnyddio barn broffesiynol i ystyried beth y mae'r patrwm colli neu ennill pwysau yn ei ddweud wrthym am statws yr unigolyn o ran maeth.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae’n codi, pa mor anodd ydyw i’w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

### *2. Maeth*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Gall gymryd digon o fwyd a diod trwy’r geg i fodloni’r holl ofynion o ran maeth. | Dim anghenion |
| Mae angen ei oruchwylio, gan ei annog i fwyta prydau, neu efallai fod angen ei fwydo a/neu ddarparu deiet arbennig ar ei gyfer<br>**NEU**<br>Gall gymryd bwyd a diod drwy’r geg ond mae asesiad risg ychwanegol yn awgrymu bod angen rhoi bwyd ychwanegol/ategol iddo. | Isel |
| Mae angen ei fwydo er mwyn sicrhau ei fod yn cael digon o fwyd ac mae’n cymryd amser hir (hanner awr neu fwy), gan gynnwys bwyd wedi’i hylifo.<br>**NEU**<br>Ni all gymryd unrhyw fwyd na diod trwy’r geg, ond mae’r holl ofynion o ran maeth yn cael eu bodloni'n ddigonol trwy ddefnyddio dulliau artiffisial, er enghraifft drwy PEG nad yw’n peri problemau. | Cymedrol |
| Angen ymyriad medrus er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael digon o faeth/hylif a lleihau’r risg o dagu a mewnsugno i gynnal y llwybr anadlu.<br>**NEU**<br>Hylifau isgroenol sy’n cael eu rheoli gan yr unigolyn neu gan ofalwyr neu weithwyr gofal sydd wedi cael hyfforddiant penodol.<br>**NEU**<br>Statws maeth "mewn perygl" a gall fod yn gysylltiedig â cholli pwysau sylweddol yn anfwriadol.<br>**NEU**<br>Broblemau sy'n gysylltiedig â dyfais fwydo (PEG er enghraifft) sydd angen eu hasesu a'u hadolygu'n fedrus. | Uchel |
| Ni all gymryd bwyd na diod trwy'r geg. Mae'r holl ofynion o ran maeth yn cael eu bodloni drwy ddefnyddio dulliau artiffisial sy’n gofyn am ymyrraeth gymwys a medrus a phroses penderfynu clinigol, a hynny'n barhaus dros gyfnod o 24 awr er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael maeth/hylif, er enghraifft hylifau mewnwythiennol.<br>**NEU**<br>Ni all gymryd bwyd na diod trwy'r geg, mae'n amhriodol neu'n amhosibl ymyrryd. | Difrifol |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**3. Ymataliaeth:** Pan fo problemau ymataliaeth wedi'u nodi, ac mae asesiad ymataliaeth llawn yn bodoli neu wedi cael ei gynnal fel rhan o'r broses asesu, mae unrhyw gyflyrau sylfaenol wedi'u nodi, ac mae effaith a thebygolrwydd unrhyw ffactorau risg wedi'u gwerthuso.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Ystyriwch unrhyw agwedd ar ofal ymataliaeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad ym maes Ymddygiad.**<br>**3. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

### *3. Ymataliaeth*

| **Disgrifiad** | **Lefel yr angen** |
|---|---|
| Ymataliol o ran wrin ac ysgarthion. | Dim anghenion |
| Rhoddir gofal ymataliaeth yn rheolaidd bob dydd;<br>Caiff anymataliaeth o ran wrin ei rheoli, er enghraifft trwy ddefnyddio meddyginiaeth, mynd â’r unigolyn i'r toiled yn rheolaidd, defnyddio gwain pidynnol ac ati.<br>**A**<br>Gall gynnal rheolaeth lawn dros y coluddyn neu mae ganddo stoma sefydlog, neu gall brofi anymataliaeth ysgarthion/rhwymedd yn achlysurol. | Isel |
| Rhoddir gofal ymataliaeth yn rheolaidd ond mae angen ei fonitro er mwyn lleihau'r risgiau, er enghraifft risgiau sy’n gysylltiedig â chathetrau wrinol, anymataliaeth ddwbl, heintiau cronig yn y llwybr wrinol a/neu reoli rhwymedd. | Cymedrol |
| Mae gofal ymataliaeth yn peri problemau ac yn gofyn am ymyriad amserol a medrus, y tu hwnt i ofal rheolaidd (er enghraifft golchi'r bledren, gwacáu'r coluddyn â llaw, ailosod cathetr yn rheolaidd). | Uchel |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**4. Iechyd Croen:** Dylai tystiolaeth o glwyfau ddod o siart asesu clwyfau neu asesiad o hyfywedd meinwe a gwblhawyd gan weithiwr proffesiynol priodol. Yn yr achos hwn, mae cyflwr ar y croen yn golygu unrhyw gyflwr sy'n effeithio neu a allai effeithio ar gyfanrwydd y croen.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *4. Iechyd Croen*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Dim risg o niwed pwyso na chyflwr sy'n effeithio ar y croen. | Dim anghenion |
| Risg y bydd y croen yn ymddatod sy'n gofyn am ymyriad ataliol unwaith y dydd neu lai nag unwaith y dydd, a byddai cyfanrwydd y croen yn ymddatod hebddo<br>**NEU**<br>Dystiolaeth o niwed pwyso a/neu wlser(au) pwyso un ai gydag 'afliwiad ar groen sy'n gyfan' neu fân glwyf(au).<br>**NEU**<br>Gyflwr sy'n effeithio ar y croen y mae angen ei fonitro neu ei ailasesu lai nag unwaith y dydd ac sy'n ymateb i driniaeth, neu nad oes angen rhoi triniaeth ar ei gyfer ar hyn o bryd. | Isel |
| Risg y bydd y croen yn ymddatod sy'n gofyn am ymyriad ataliol sawl gwaith y dydd, y byddai cyfanrwydd y croen yn ymddatod hebddo.<br>**NEU**<br>Niwed pwyso neu glwyf(au) agored, wlser(au) pwyso ynghyd â 'cholli rhan o drwch y croen gan gynnwys epidermis a/neu ddermis', sy'n ymateb i driniaeth.<br>**NEU**<br>Gyflwr sy'n effeithio ar y croen y mae angen ei driniaeth bob dydd o leiaf, neu ei fonitro/ailasesu bob dydd er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i'r driniaeth. | Cymedrol |
| Niwed pwyso neu glwyf(au) agored, wlser(au) pwyso ynghyd â 'cholli rhan o drwch y croen gan gynnwys epidermis a/neu ddermis', nad yw'n ymateb i driniaeth<br>**NEU**<br>Niwed pwyso neu glwyf(au) agored, wlser(au) pwyso ynghyd â 'cholli trwch llawn y croen sy'n cynnwys niwed neu necrosis i'r meinwe isgroenol, ond heb gyrraedd yr asgwrn, y tendon na chwpan y cymal oddi tano', sy'n ymateb i driniaeth.<br>**NEU**<br>Mae trefn rhwymo clwyfau arbenigol ar waith; maent yn ymateb i driniaeth | Uchel |
| Clwyf(au) agored, wlser(au) pwyso ynghyd â 'cholli trwch llawn y croen sy'n cynnwys niwed neu necrosis i'r meinwe isgroenol, ond heb gyrraedd yr asgwrn, y tendon na chwpan y cymal oddi tano' nad ydynt yn ymateb i driniaeth ac y mae angen eu monitro/ailasesu'n rheolaidd.<br>**NEU**<br>Clwyf(au) agored, wlser(au) pwyso ynghyd â 'cholli trwch llawn y croen gyda dinistr helaeth a necrosis i'r meinwe sy'n cyrraedd yr asgwrn, y tendon neu gwpan y cymal oddi tano'.<br>**NEU** Nifer o glwyfau nad ydynt yn ymateb i driniaeth. | Difrifol |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**5. Symudedd:** Mae’r adran hon yn ystyried unigolion â phroblemau symud. Dylech ystyried materion eraill sy’n ymwneud â symudedd, megis crwydro, ym maes Ymddygiad lle y bo’n berthnasol. Pan nodir problemau symudedd, dylai Asesiad Codi a Symud cyfredol ac Asesiad cyfredol o’r Risg o Gwympo fod yn bodoli eisoes, neu dylid bod wedi’u cynnal fel rhan o’r broses asesu, a dylai effaith a thebygolrwydd unrhyw ffactorau risg fod wedi cael eu hystyried. Dylai'r asesiad, fel rheol, fod wedi'i gwblhau o fewn y tri mis diwethaf. Fodd bynnag, dylid defnyddio barn broffesiynol er mwyn penderfynu a oes unrhyw beth perthnasol y tu allan i'r cyfnod hwn o amser y dylid ei ystyried. Mae’n bwysig nodi nad yw defnyddio’r gair ‘uchel’ mewn unrhyw adnodd penodol ar gyfer asesu’r risg o gwympo o reidrwydd yn cyfateb i lefel uchel o angen yn y maes hwn.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gyfeirio at symud a chodi ac asesiadau o'r risg o gwympo lle y bo'n berthnasol. Nodwch ddwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG

## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

### *5. Symudedd*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Gall symud yn annibynnol | Dim anghenion |
| Gall gynnal ei bwysau ond mae angen rhywfaint o gymorth a/neu gyfarpar symudedd arno i fyw o ddydd i ddydd. | Isel |
| Ni all gynnal ei bwysau'n gyson.<br>**NEU**<br>Mae'n methu'n lân â chynnal ei bwysau ond gall helpu neu gydweithredu pan fydd yn cael ei drosglwyddo a/neu ei symud.<br>**NEU**<br>Mae mewn un lleoliad (gwely neu gadair) am y rhan fwyaf o'r amser ond gall gydweithredu a helpu gofalwyr neu weithwyr gofal.<br>**NEU**<br>Mae risg gymedrol y bydd yn cwympo (fel y gwelir mewn hanes o gwympo neu asesiad risg) | Cymedrol |
| Mae'n methu'n lân â chynnal ei bwysau ac ni all helpu na chydweithredu pan fydd yn cael ei drosglwyddo a/neu ei symud.<br>**NEU**<br>Mae angen bod yn ofalus wrth leoli'r unigolyn oherwydd y risg o niwed corfforol neu'r risg y bydd yn colli tyndra'r cyhyrau neu'n dioddef poen ac ni all gydweithredu.<br>**NEU**<br>Risg uchel o gwympo (fel y gwelir mewn hanes cwympo diweddar ac asesiad risg).<br>**NEU**<br>Ceir gwingiadau neu gyfangiadau anwirfoddol yn y cyhyrau sy'n peri risg i'r unigolyn neu bobl eraill. | Uchel |
| Mae ganddo gyflwr clinigol sy'n golygu bod risg uchel o niwed corfforol difrifol wrth ei symud neu ei drosglwyddo a phan fo'n hollbwysig sut mae'n cael ei leoli. | Difrifol |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**6. Cyfathrebu:** Mae’r adran hon yn ymwneud ag anawsterau mynegi a deall, yn arbennig mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu. Mae'n ddigon posibl bod gallu neu anallu unigolyn i gyfleu ei anghenion wedi effeithio ar yr asesiad cyffredinol a'r gofal a ddarperir. Dylid bob amser ystyried a oes angen cymorth ar yr unigolyn i gyfathrebu, er enghraifft drwy ddehonglydd, y defnydd o luniau, iaith arwyddion, y defnydd o Braille, cymhorthion clyw, neu dechnoleg gyfathrebu arall.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae’n codi, pa mor anodd ydyw i’w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *6. Cyfathrebu*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Gall gyfathrebu'n glir, mewn geiriau neu heb eiriau. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o'i iaith gyntaf. Efallai y bydd angen gwasanaeth cyfieithu arno os nad Saesneg yw ei iaith gyntaf. | Dim anghenion |
| Mae angen cymorth arno i gyfleu ei anghenion. Efallai y bydd angen gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod ei anghenion yn cael ei ddehongli'n gywir neu efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arno naill ai'n weledol, drwy gyffyrddiad neu gyda chlyw. | Isel |
| Mae'n anodd deall neu ddehongli'r hyn y mae'r unigolyn yn ei gyfleu am ei anghenion, neu weithiau ni all gyfathrebu'n ddibynadwy, hyd yn oed pan fydd yn cael cymorth. Efallai y bydd gofalwyr neu weithwyr gofal yn gallu rhagweld anghenion drwy arwyddion di-eiriau am eu bod yn gyfarwydd â'r unigolyn. | Cymedrol |
| Ni all gyfleu ei anghenion yn ddibynadwy ar unrhyw adeg nac mewn unrhyw ffordd, hyd yn oed pan fydd pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu. Mae'n rhaid rhagweld y rhan fwyaf o anghenion yr unigolyn oherwydd ei analluu i'w cyfleu. | Uchel |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

7. **Anghenion Seicolegol ac Emosiynol:** Dylai fod tystiolaeth bod anghenion seicolegol a'u heffaith ar iechyd a lles yr unigolyn wedi'u hystyried, waeth beth fo'i gyflwr sylfaenol. Defnyddiwch y maes hwn i gofnodi anghenion seicolegol ac emosiynol yr unigolyn a sut maent yn cyfrannu at yr anghenion gofal cyffredinol, gan nodi'r achosion sylfaenol. Os na all yr unigolyn fynegi ei anghenion seicolegol/emosiynol (hyd yn oed gyda chymorth priodol) oherwydd natur ei anghenion cyffredinol (a allai gynnwys nam gwybyddol), dylid cofnodi hyn a llunio barn broffesiynol yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth gyffredinol am yr unigolyn.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *7. Anghenion Seicolegol ac Emosiynol*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Nid yw anghenion seicolegol nac emosiynol yn cael effaith ar ei iechyd a'i les. | Dim anghenion |
| Tarfiad ar ei hwyliau, rhithweledigaethau neu symptomau gorbryder, neu gyfnodau o drallod, sy'n effeithio ar ei iechyd a/neu ei les ond sy'n ymateb os bydd rhywun yn annog yr unigolyn, yn tynnu ei sylw neu'n ceisio tawelu ei feddwl.<br>**NEU**<br>Mae angen ei ysgogi er mwyn iddo gymell ei hun tuag at weithgarwch a'i gynnwys yn y gwaith o gynllunio gofal, cymorth a/neu weithgareddau pob dydd. | Isel |
| Tarfiad ar ei hwyliau, rhithweledigaethau neu symptomau gorbryder, neu gyfnodau o drallod, nad ydynt yn ymateb os bydd rhywun yn annog yr unigolyn neu'n ceisio tawelu ei feddwl ac sy'n cael effaith gynyddol ar iechyd a/neu les yr unigolyn.<br>**NEU**<br>Oherwydd ei gyflwr seicolegol neu emosiynol mae'r unigolyn wedi mynd i'w gragen mewn perthynas â'r rhan fwyaf o ymdrechion i'w gynnwys yn y gwaith o gynllunio gofal, cymorth a/neu weithgareddau pob dydd. | Cymedrol |
| Tarfiad ar ei hwyliau, rhithweledigaethau neu symptomau gorbryder, neu gyfnodau o drallod sy'n cael effaith ddifrifol ar iechyd a/neu les yr unigolyn.<br>**NEU**<br>Oherwydd ei gyflwr seicolegol neu emosiynol mae'r unigolyn wedi mynd i'w gragen mewn perthynas â phob ymdrech i'w gynnwys yn y gwaith o gynllunio gofal, cymorth a/neu weithgareddau bob dydd. | Uchel |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**8. Gwybyddiaeth**: Gall hyn fod yn gymwys i unigolion ag anabledd dysgu a/neu anhwylderau caffaeledig neu ddirywiol, ond nid yw wedi’i gyfyngu iddynt. Pan gaiff nam gwybyddol ei nodi yn yr asesiad o angen, dylid ystyried atgyfeirio'r unigolyn at arbenigwr priodol os nad oes un eisoes yn ymwneud â’r achos. Mae penderfynu ar lefel yr angen o dan y maes hwn yn ystyriaeth allweddol wrth lunio barn broffesiynol ynglŷn â lefel y risg i’r unigolyn.

**Gweler y canllawiau yn Fframwaith 2021 ynglyn â’r angen i gymhwyso egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol ym mhob achos lle mae amheuaeth ynghylch galluedd rhywun. Dylai egwyddorion y Ddeddf hefyd gael eu cymhwyso at bob ystyriaeth mewn perthynas â gallu unigolyn i wneud penderfyniadau a dewisiadau.**

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn (gan gynnwys anghenion cyfnodol ac amrywiol), gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae’n codi, pa mor anodd ydyw i’w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Pan fydd nam gwybyddol wedi effeithio ar ymddygiad yr unigolyn, dylid ystyried hyn ym maes ymddygiad, fel bod y rhyngweithio rhwng y ddau faes yn glir.**<br>**3. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 2 – Meysydd Gofal

## Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr

### *8. Gwybyddiaeth*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Dim tystiolaeth o nam gwybyddol na dryswch. | Dim anghenion |
| Nam gwybyddol sy'n golygu bod angen rhywfaint o oruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth gyda gweithgareddau mwy cymhleth byw o ddydd i ddydd, megis cyllid a meddyginiaeth, ond mae'n amlwg ei fod yn ymwybodol o risgiau sylfaenol sy'n effeithio ar ei ddiogelwch.<br>**NEU**<br>Mae'n cael problemau o bryd i'w gilydd gyda'r cof a phenderfyniadau/dewisiadau sy'n golygu bod angen cefnogaeth, anogaeth neu gymorth arno. Fodd bynnag mae'r unigolyn yn deall ei nam. | Isel |
| Nam gwybyddol (a all gynnwys rhai problemau gyda'r cof) sy'n gofyn am rywfaint o oruchwyliaeth, anogaeth a/neu gymorth gydag anghenion gofal sylfaenol a gweithgareddau byw o ddydd i ddydd. Mae rhywfaint o ymwybyddiaeth o anghenion a risgiau sylfaenol yn amlwg. Fel arfer, gall yr unigolyn wneud dewisiadau sy'n briodol i'w anghenion gyda chymorth. Fodd bynnag, mae gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau am rai agweddau ar ei fywyd yn gyfyngedig hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth, sy'n golygu ei fod yn wynebu risg o niwed, esgeulustod neu ddirywiad yn ei iechyd. | Cymedrol |
| Nam gwybyddol a allai gynnwys problemau cof byrdymor aml a cholli cyswllt ag amser a lle. Dim ond ymwybyddiaeth o ystod gyfyngedig iawn o anghenion a risgiau sylfaenol sydd gan yr unigolyn. Er y gall wneud rhai dewisiadau sy'n briodol i'w angen ar ystod gyfyngedig o faterion, ni all wneud hynny ar gyfer y rhan fwyaf o faterion, hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth. Mae'r unigolyn yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau am agweddau allweddol ar ei fywyd yn gyfyngedig hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth, sy'n golygu ei fod yn wynebu risg uchel o niwed, esgeulustod neu ddirywiad yn ei iechyd. | Uchel |
| Nam gwybyddol a allai, er enghraifft, gynnwys problemau amlwg yn ymwneud â'r cof byrdymor, problemau yn ymwneud â'r cof hirdymor neu golli cyswllt ag amser, lle neu unigolion.<br>Ni all yr unigolyn asesu risgiau sylfaenol hyd yn oed â goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth, ac mae'n ddibynnol ar eraill i ragweld ei anghenion sylfaenol a'i ddiogelu rhag niwed, esgeulustod neu ddirywiad ei iechyd. | Difrifol |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**9. Ymddygiad:** Mae ymddygiad dynol yn gymhleth ac yn anodd ei gategoreiddio a gall fod yn anodd ei reoli. Gall ymddygiad heriol gael ei achosi gan amrywiaeth eang o ffactorau. Gall fod rhwystredigaeth fawr yn gysylltiedig ag anawsterau cyfathrebu, amgylchedd amhriodol neu amrywio o ran ei gyflwr meddyliol. Mae ymddygiad heriol yn y maes hwn yn cynnwys y canlynol ond nid w'n gyfyngedig iddynt:

- ymddygiad ymosodol, trais neu ymddygiad anymosodol goddefol
- diluddiannu difrifol
- natur swnllyd neu aflonyddwch sy'n anodd ei thrin/drin
- gwrthsefyll gofal a thriniaeth sydd eu hangen (gall hyn gynnwys, felly, peidio â chytuno a pheidio â chydymffurfio,
- amrywiadau difrifol
- ymyrryd yn amhriodol ag eraill
- risg uchel o hunan-niweidio neu hunanladdiad a nodwyd

Dylai'r asesiad o anghenion unigolyn â phroblemau ymddygiadol difrifol gynnwys rhoi ystyriaeth benodol i'r risg(iau) **iddo'i hun, i eraill neu i eiddo** gyda sylw arbennig yn cael ei roi i ymddygiad ymosodol, hunan-niweidio a hunanesgeuluso ac unrhyw ymddygiad arall, waeth beth fo'i amgylchedd byw.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan gynnwys unrhyw anghenion cyfnodol. Rhowch y dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, megis yr adegau a'r sefyllfaoedd pan fydd yr ymddygiad yn debygol o ddigwydd ar gyfer amrywiaeth o orchwylion dyddiol nodweddiadol ac amlder, hyd ac effaith yr ymddygiad.**<br>**2. Nodwch unrhyw orgyffwrdd â meysydd eraill.**<br>**3. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *9. Ymddygiad*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Dim tystiolaeth o ymddygiad 'heriol'. | Dim anghenion |
| Rhai achosion o ymddygiad 'heriol'. Mae asesiad risg yn nodi nad yw'r ymddygiad yn peri risg i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill nac i eiddo ac nad yw'n rhwystr i ymyriad. Mae'r unigolyn yn cydymffurfio â phob agwedd ar ei ofal. | Isel |
| Ymddygiad 'heriol' sy'n dilyn patrwm y gellir ei ragweld. Mae'r asesiad risg yn nodi patrwm o ymddygiad a all gael ei reoli gan ofalwyr neu weithwyr gofal medrus a all gynnal lefel o ymddygiad nad yw'n peri risg i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill nac i eiddo. Mae'r unigolyn bron bob amser yn cydymffurfio â gofal. | Cymedrol |
| Ymddygiad 'heriol' sy'n peri risg y gellir ei rhagweld i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill neu i eiddo. Mae'r asesiad risg yn nodi bod ymyriadau a gynlluniwyd yn effeithiol i leihau risgiau ond nad ydynt yn eu dileu bob tro. Mae cydymffurfiaeth yn amrywio ond fel arfer mae'r unigolyn yn ymateb i ymyriadau a gynlluniwyd. | Uchel |
| Ymddygiad 'heriol' sy'n ddigon difrifol a/neu sy'n digwydd yn ddigon aml fel ei fod yn peri risg sylweddol i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill neu i eiddo. Mae'r asesiad risg yn nodi bod yr ymddygiad(au) yn gofyn am ymateb prydlon a medrus a allai fod y tu hwnt i gwmpas ymyriadau a gynlluniwyd. | Difrifol |
| Ymddygiad 'heriol' sy'n ddigon difrifol a/neu sy'n digwydd yn ddigon aml a/neu sy'n ddigon anodd ei ragweld fel ei fod yn peri risg uniongyrchol a difrifol i'r unigolyn ei hun, i bobl eraill neu i eiddo. Mae'r risgiau mor ddifrifol fel bod angen i ymateb medrus fod ar gael ar unwaith, bob amser er mwyn sicrhau gofal diogel. | Blaenoriaeth |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**10. Therapïau Cyffuriau a Meddyginiaeth:** Mae profiad yr unigolyn o'r modd y rheolir ei symptomau a dwyster y symptomau hynny yn ffactor bwysig wrth benderfynu ar lefel yr angen yn y maes hwn. Pan fydd hyn yn effeithio ar agweddau eraill ar fywyd yr unigolyn, cyfeiriwch at y meysydd eraill, yn enwedig y maes seicolegol ac emosiynol. Bydd lleoliad y gofal yn dylanwadu ar bwy sy'n rhoi'r feddyginiaeth.

Y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i reoli'r angen clinigol a'r rhyngweithio rhwng y feddyginiaeth a'r angen, yw'r ffactor sy'n penderfynu ar lefel yr angen. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd unigolyn neu ei ofalwr yn rheoli'r feddyginiaeth a gall hyn olygu bod angen lefel uchel o fedrusrwydd. Nid yw'r cyfeiriadau isod at yr angen i feddyginiaeth gael ei rhoi gan nyrs gofrestredig yn cynnwys achosion pan mai gofyniad cofrestru neu arfer y lleoliad gofal yn unig yw hynny (megis cartref gofal yn mynnu bod pob meddyginiaeth yn cael ei rhoi gan nyrs gofrestredig).

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch isod anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol, gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *10. Therapïau Cyffuriau a Meddyginiaeth*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Rheolir y symptomau'n effeithiol heb unrhyw broblemau, ac nid yw'r feddyginiaeth yn cael unrhyw sgil effeithiau na ellir eu rheoli. | Dim anghenion |
| Mae angen goruchwylio'r unigolyn pan fydd yn cymryd y feddyginiaeth neu mae angen rhoi'r feddyginiaeth iddo a/neu mae angen ei annog i gymryd y feddyginiaeth ond mae'r unigolyn yn cydymffurfio â'r gyfundrefn feddyginiaeth.<br>**NEU**<br>Boen ysgafn y gellir ei ragweld a/neu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol byw i ddydd i ddydd. Nid yw poen na symptomau eraill yn effeithio ar y ffordd y darperir gofal. | Isel |
| Mae angen i feddyginiaeth gael ei rhoi i'r unigolyn (gan nyrs gofrestredig, gofalwr neu weithiwr gofal) am y rhesymau canlynol:<br>peidio â chytuno i'r feddyginiaeth neu beidio â chydymffurfio â'r feddyginiaeth, neu'r math o feddyginiaeth (er enghraifft inswlin), neu lwybr y feddyginiaeth (er enghraifft PEG).<br>**NEU**<br>Boen cymedrol sy'n dilyn patrwm y gellir ei ragweld; neu symptomau eraill sy'n cael effaith gymedrol ar feysydd eraill neu'r ffordd y darperir gofal. | Cymedrol |
| Mae angen i feddyginiaeth gael ei rhoi ac i'r gyfundrefn feddyginiaeth gael ei monitro gan nyrs gofrestredig, gofalwr neu weithiwr gofal sydd wedi cael hyfforddiant penodol ar gyfer y dasg oherwydd bod risgiau'n gysylltiedig â'r ffaith y gallai'r cyflwr meddygol neu'r cyflwr meddyliol fod yn anwadal, neu risgiau o ran effeithiolrwydd y feddyginiaeth, neu natur neu ddifrifoldeb posibl y sgil-effeithiau. Fodd bynnag, gyda'r math hwn o waith monitro, fel arfer nid oes problemau yn gysylltiedig â rheoli'r cyflwr.<br>**NEU**<br>Boen cymedrol neu symptomau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar feysydd eraill neu ar y ffordd y darperir gofal. | Uchel |
| Mae angen i feddyginiaeth gael ei rhoi ac i'r gyfundrefn feddyginiaeth gael ei monitro gan nyrs gofrestredig, gofalwr neu weithiwr gofal sydd wedi cael hyfforddi penodol ar gyfer y dasg hon oherwydd bod risgiau'n gysylltiedig â'r ffaith y gallai'r cyflwr meddygol neu'r cyflwr meddyliol fod yn anwadal, neu risgiau o ran effeithiolrwydd y feddyginiaeth neu natur neu ddifrifoldeb posibl y sgil-effeithiau. Hyd yn oed gyda'r math hwn o waith monitro, fel arfer mae problemau yn gysylltiedig â rheoli'r cyflwr.<br>**NEU**<br>Boen difrifol rheolaidd neu gyson nad yw'n ymateb i driniaeth.<br>**NEU**<br>Risg o beidio â chytuno i'r feddyginiaeth, sy'n golygu bod risg y caiff ail bwl o'r salwch | Difrifol |
| Mae gan yr unigolyn gyfundrefn gyffuriau y mae angen i nyrs gofrestredig ei monitro'n ddyddiol er mwyn sicrhau y rheolir symptomau a phoen sy'n gysylltiedig â chyflwr sy'n newid a/neu'n dirywio'n gyflym.<br>**NEU**<br>Boen di-baid a llethol er gwaethaf pob ymdrech i reoli'r poen yn effeithiol. | Blaenoriaeth |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**11. Cyflyrau Ymwybyddiaeth Newidiedig (ASC):** Gall cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig gynnwys amrywiaeth o gyflyrau sy'n effeithio ar yr ymwybyddiaeth, gan gynnwys pyliau ischaemig byrhoedlog (TIA), epilepsi a llesmair fasofagol.

Ni fyddai cysgadrwydd cyffredinol, er enghraifft, yn gyfystyr â chyflwr ymwybyddiaeth newidiedig at ddibenion y maes hwn oni fyddai'n gysylltiedig â chyflwr clinigol a ganfuwyd.

| |
|---|
| **1. Disgrifiwch isod anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol (gan gyfeirio at yr asesiadau risg priodol), gan gynnwys dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

### *11. Cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC)*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| Dim tystiolaeth o gyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC). | Dim anghenion |
| Hanes o ASC ond mae’n cael ei reoli'n effeithiol ac mae'r risg o niwed yn isel. | Isel |
| Pyliau achlysurol o ASC (unwaith y mis neu'n llai aml) sy'n gofyn am oruchwyliaeth gofalwr neu weithiwr gofal er mwyn lleihau'r perygl o niwed. | Cymedrol |
| Pyliau aml o ASC sy'n gofyn am oruchwyliaeth gofalwr neu weithiwr gofal er mwyn lleihau'r perygl o niwed.<br>**NEU**<br>Byliau achlysurol o ASC sy'n gofyn am ymyriad medrus er mwyn lleihau'r perygl o niwed. | Uchel |
| Coma.<br>**NEU**<br>ASC sy'n digwydd bron bob ddydd, nad yw’n ymateb i driniaeth ataliol, ac sy’n peri risg ddifrifol o niwed. | Blaenoriaeth |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**12. Anghenion gofal sylweddol eraill:** Gall amgylchiadau godi, fesul achos, lle y gall fod gan unigolyn anghenion iechyd penodol nas cwmpesir gan yr un o'r meysydd gofal a ddisgrifir uchod neu na ellir eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y meysydd hyn. Os nad yw'r blychau ym mhob un o'r meysydd sy'n rhoi lle ar gyfer nodiadau eglurhaol yn ddigon mawr i gofnodi'r holl anghenion, cyfrifoldeb y TA yw penderfynu ar lefel yr anghenion hyn a pha fath o anghenion ydynt a'u cofnodi yma

Ni ddylid defnyddio'r ffaith nad oes digon o wybodaeth ar gael i gwblhau'r maes hwn i effeithio'n amhriodol ar y penderfyniad terfynol ynghylch a yw unigolyn yn gymwys i gael GIP.

| |
|---|
| **1. Rhowch ddisgrifiad cryno o anghenion gwirioneddol yr unigolyn, gan roi'r dystiolaeth sy'n llywio'r penderfyniad dros y dudalen ynghylch pa lefel sy'n briodol (gan gyfeirio at yr asesiadau risg priodol), a gan nodi dwyster yr angen, pa mor aml y mae'n codi, pa mor anodd ydyw i'w ragweld, dirywiad ac unrhyw ansefydlogrwydd.**<br>**2. Rhowch gylch o amgylch y lefel a aseswyd dros y dudalen** |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

## *Anghenion gofal sylweddol eraill*

| Disgrifiad | Lefel yr angen |
|---|---|
| | Isel |
| | Cymedrol |
| | Uchel |
| | Difrifol |

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 2 – Meysydd Gofal

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

***Lefelau Angen a Aseswyd***

| **Maes Gofal** | **B** | **D** | **U** | **C** | **I** | **DA** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anadlu | | | | | | |
| Maeth | | | | | | |
| Ymataliaeth | | | | | | |
| Iechyd Croen | | | | | | |
| Symudedd | | | | | | |
| Cyfathrebu | | | | | | |
| Anghenion Seicolegol ac Emosiynol | | | | | | |
| Gwybyddiaeth | | | | | | |
| Ymddygiad | | | | | | |
| Therapïau Cyffuriau a Meddyginiaeth | | | | | | |
| Cyflyrau Ymwybyddiaeth Newidiedig | | | | | | |
| Anghenion gofal sylweddol eraill | | | | | | |
| **Cyfansymiau** | | | | | | |

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

**Nodwch isod unrhyw farn a fynegwyd gan yr unigolyn a/neu ei deulu, gofalwr neu gynrychiolydd, ar ôl cwblhau'r ACP nad yw wedi'i chofnodi uchod, gan gynnwys a yw'n cytuno â'r lefelau a ddewiswyd yn y meysydd gofal. Lle mae'n anghytuno â'r lefelau, dylid cofnodi hyn isod, gan gynnwys y rhesymau pam mae'n anghytuno â nhw.**

| |
|---|
| |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Adran 3 – Argymhelliad

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

***Argymhelliad y Tîm Amlddisgyblaethol sy'n llenwi'r ACP***

**Rhowch argymhelliad ar y dudalen nesaf ynghylch p'un a yw'r unigolyn yn gymwys i gael GIP ai peidio. Dylai'r argymhelliad ystyried ystod a lefelau'r angen a gofnodir yn yr ACP a beth mae hyn yn ei ddweud wrthych o ran a oes gan yr unigolyn angen iechyd sylfaenol. Dylid nodi yma unrhyw anghytundeb ynglŷn â'r lefelau a ddefnyddiwyd neu unrhyw achos pryd y mae anghenion wedi'u nodi mewn mwy nag un maes gofal. Wrth benderfynu a ddylid argymell mai anghenion iechyd yw anghenion sylfaenol yr unigolyn, dylid ystyried y canlynol:**

- **Natur:** Mae hyn yn disgrifio nodweddion penodol anghenion unigolyn (a all gynnwys anghenion corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol) a'r math o anghenion sydd ganddo. Mae hefyd yn disgrifio effaith gyffredinol yr anghenion hynny ar yr unigolyn, gan gynnwys y math o ymyriadau sydd eu hangen i'w rheoli.
- **Dwyster:** Mae hyn yn cyfeirio at faint a difrifoldeb yr anghenion a'r cymorth sydd ei angen i'w diwallu, gan gynnwys yr angen am ofal parhaol/parhaus ('parhad').
- **Cymhlethdod:** Mae hyn yn cyfeirio at sut mae'r anghenion yn dod i'r amlwg ac yn rhyngweithio â'i gilydd er mwyn cynyddu'r sgiliau sydd eu hangen i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr (cyflyrau) a/neu reoli'r gofal. Gall hyn ddigwydd ag un cyflwr, neu gall hefyd gynnwys sawl cyflwr neu'r ffordd y mae dau gyflwr neu fwy yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle mae ymateb unigolyn i'w gyflwr ei hun yn effeithio ar ei anghenion cyffredinol, er enghraifft pan fo angen iechyd corfforol yn peri i'r unigolyn ddatblygu angen iechyd meddwl.
- **Anodd eu rhagweld:** Mae hyn yn disgrifio i ba raddau mae anghenion yn amrywio gan greu heriau o ran eu rheoli. Mae hefyd yn ymwneud â'r risg i iechyd yr unigolyn os na chaiff gofal digonol ac amserol ei ddarparu. Mae'n debygol bod gan rywun ag angen gofal iechyd anodd ei ragweld gyflwr sy'n amrywio, neu'n ansefydlog neu'n dirywio yn gyflym.

Gall pob un o'r nodweddion hyn, ar y cyd neu'n unigol, fod yn arwydd o angen iechyd sylfaenol, oherwydd maint a/neu ansawdd y gofal sydd ei angen i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Dylid ystyried yn ofalus yr anghenion cyffredinol yn eu cyfanrwydd a'r effaith a gaiff yr anghenion hyn gyda'i gilydd wrth gwblhau'r ACP.

Nodwch hefyd p'un a ddisgwylir i'r anghenion newid (dirywio neu wella) cyn y tro nesaf y caiff yr achos ei adolygu. Os felly, nodwch pam, pa anghenion a fydd yn wahanol yn eich barn chi ac a ydych chi, felly, yn argymell y dylid cytuno bod yr unigolyn yn gymwys i gael GIP ar unwaith neu y dylid pennu dyddiad adolygu cynnar.

Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP a bod yr asesiad a'r cynllun gofal, fel y cytunwyd arnynt gyda'r unigolyn, yn dangos bod angen cymorth arno mewn cartref gofal, dylai'r tîm nodi p'un a oes angen gofal nyrsio cofrestredig yn y cartref gofal, gan roi rhesymau clir yn seiliedig ar y dystiolaeth uchod.

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG

## Adran 3 – Argymhelliad

**Gweler y nodiadau i ddefnyddwyr**

Argymhelliad ar gymhwysedd i gael GIP, isod, sy'n nodi'r casgliadau ar y materion a amlinellwyd ar y dudalen flaenorol: Dylai hyn hefyd gynnwys y penawdau canlynol:

- Trosolwg;
- Natur;
- Dwysedd;
- Cymhlethdod;
- Anodd eu rhagweld;
- Argymhelliad.

**Llofnodion y TA sy'n gwneud yr argymhelliad:**

**Gweithwyr iechyd proffesiynol**

| Enw mewn Priflythrennau | Swydd | Cymhwyster Proffesiynol | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol/gweithwyr proffesiynol eraill**

| Enw mewn Priflythrennau | Swydd | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

## Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
## Rhestr Termau

***Adsefydlu***
Rhaglen therapi ac ailalluogi er mwyn helpu'r unigolyn i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl a lleihau effeithiau unrhyw anabledd i'r eithaf.

***Amlddisgyblaethol***
Mae amlddisgyblaethol yn cyfeirio at weithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau, megis gwaith cymdeithasol, nyrsio a therapi galwedigaethol, sy’n gweithio gyda'i gilydd er mwyn diwallu anghenion cyfannol unigolion er mwyn darparu gwell gofal, sy’n llai tameidiog.

***Anaf sy'n gysylltiedig â phwyso***
Niwed i ran o'r croen neu'r meinwe oddi tano o ganlyniad i bwyso ar y rhan honno o'r croen am gyfnod hir.

***Asesiad***
Proses lle y caiff anghenion unigolyn eu nodi a’u heffaith ar fywyd bob dydd ac ansawdd bywyd ei gwerthuso.

***Asesiadau arbenigol***
Asesiad a gynhelir gan glinigwr neu weithiwr proffesiynol arall sy'n arbenigo mewn cangen o feddygaeth neu ofal, er enghraifft strôc, gofal cardiaidd, cwnsela i'r rhai mewn galar.

***Asesiad amlddisgyblaethol***
Mae asesiad amlddisgyblaethol yn asesiad o anghenion unigolyn lle yr aed ati’n benodol i gynnwys gweithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau yn y gwaith o gasglu gwybodaeth asesu a’i gwerthuso.

***Cydymffurfio***
I ba raddau y mae claf yn cymryd, neu’n peidio â chymryd, meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd.

***Cydgysylltydd gofal***
Unigolyn sy'n cydgysylltu'r broses asesu a chynllunio gofal pan fo angen gwasanaeth cymhleth a/neu nifer o wasanaethau ar unigolyn i'w gynorthwyo. Cydgysylltwyr gofal yw'r pwynt cyswllt canolog â'r unigolyn fel arfer. Mae'n bosibl bod termau gwahanol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r rôl hon mewn gwahanol ranbarthau.

***Cyfangiad***
Cyflwr annormal, sy'n un parhaol fel arfer, sy'n effeithio ar blygiant y cymalau neu’n peri iddynt fethu â phlygu. Fe'i hachosir gan atroffi, trwy i ffibrau’r cyhyrau fyrhau neu trwy golli elastigedd normal y croen sy’n achosi i'r cyhyr gyfangu.

### *Cyflyrau hirdymor*

Y cyflyrau hynny na ellir, ar hyn o bryd, eu gwella ond y gellir eu rheoli gan ddefnyddio meddyginiaeth a therapïau eraill.

### *Cynllun gofal*

Dogfen sy'n cofnodi'r rheswm pam mae cymorth a gwasanaethau'n cael eu darparu, pa rai sy'n cael eu darparu, a'r canlyniad a ddymunir.

### *Cynllunio gofal*

Proses sy'n seiliedig ar asesiad o anghenion yr unigolyn ac sy'n golygu gweithio gyda'r unigolyn i nodi a chytuno ar y lefel a'r math o gymorth i ddiwallu'r anghenion hynny, a'r amcanion a'r canlyniadau posibl y gellir eu cyflawni.

### *Cytundeb*

Cytundeb rhwng unigolyn a gweithiwr iechyd proffesiynol ynglŷn â darparu gofal. Mae cytundeb a chydymffurfiaeth yn aml yn cael eu defnyddio i olygu'r un peth.

### *Dyfodol agos*

Mae'n cyfeirio at anghenion y mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol o godi cyn yr adolygiad nesaf a gynlluniwyd ar gyfer yr unigolyn.

### *Galluedd meddyliol*

Y gallu i wneud penderfyniad ar fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Nodir y diffiniad cyfreithiol o unigolyn nad oes ganddo alluedd yn adran 2 o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel: 'a person lacks capacity in relation to a matter if at the material time he is unable to make a decision for himself in relation to the matter because of ân impairment of, or disturbance in the functioning of, the mind or brain'.

### *Gofal*

Cymorth a roddir i unigolion i'w galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl, gan gynnwys unrhyw beth a wneir i helpu unigolyn i fyw gydag afiechyd, anabledd, eiddilwch neu anhawster dysgu a chyfranogi cymaint â phosibl mewn gweithgareddau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

### *Gofal cymdeithasol*

Mae gofal cymdeithasol yn cyfeirio at yr amrywiaeth eang o wasanaethau a luniwyd er mwyn helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth, eu galluogi i chwarae rhan lawnach mewn cymdeithas, eu diogelu mewn sefyllfaoedd bregus a rheoli cydberthnasau cymhleth (*Our health, our care, our say: a new direction for community services*, paragraff 1.29). Fe'i darperir gan sefydliadau statudol ac annibynnol, a gall Awdurdodau Lleol ei gomisiynu yn ddibynnol ar brawf modd, mewn amrywiaeth o leoliadau.

### *Gofal Iechyd Parhaus y GIG*

Pecyn cyflawn o ofal parhaus a gaiff ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG, pan asesir bod angen sylfaenol yr unigolyn yn ymwneud â'i iechyd. Gellir ei ddarparu mewn unrhyw leoliad. Pan fo unigolyn yn byw yn ei gartref ei hun, mae'n golygu bod y GIG yn ariannu'r holl ofal sydd ei angen arno i ddiwallu'r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr aseswyd sydd ganddo. Gallai gofal o'r fath gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn a'r tu allan iddo, fel y bo'n briodol i'w asesiad a'i gynllun gofal. Mewn cartrefi gofal, mae'n golygu bod y GIG hefyd yn llunio contract â'r cartref gofal ac yn talu'r ffioedd llawn am lety a gofal yr unigolyn.

### *Gofalwr*

Mae gofalwyr yn gofalu am berthnasau, partneriaid neu ffrindiau y mae angen help arnynt am eu bod yn sâl neu'n eiddil, neu am fod ganddynt anabledd. Mae'r gofal a ddarperir ganddynt yn ddi-dâl fel arfer.

### *Gweithiwr gofal*

Mae gweithwyr gofal yn darparu cymorth y telir amdano er mwyn helpu pobl i reoli gweithgareddau bywyd bob dydd. Gall y cymorth hwn fod yn ofal cymdeithasol, ymarferol neu gall ddiwallu anghenion gofal iechyd unigolyn.

### *Gwasanaethau cymdeithasol*

Darperir gwasanaethau cymdeithasol gan 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Maent yn darparu amrywiaeth eang o ofal a chymorth, yn bersonol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, i bobl y tybir eu bod mewn angen.

### *Gwingiad*

Cyhyr, grŵp o gyhyrau, neu organ wag yn cyfangu'n sydyn ac yn anwirfoddol, neu gyfangiad sydyn tebyg mewn agorfa. Daw pwl sydyn o boen ar yr un pryd â'r gwingiad fel arfer.

### *Gwybyddiaeth*

Prosesau meddyliol uwch yr ymennydd a'r meddwl, gan gynnwys cofio, meddwl, barnu, cyfrifo, sgiliau gofodol gweledol ac ati.

### *Nam gwybyddol*

Mae nam gwybyddol yn cyfeirio at unrhyw namau sy'n amharu ar unrhyw rai o'r prosesau meddyliol uwch, a gellir mesur llawer o'r rhain gan ddefnyddio profion seicolegol addas. Nam gwybyddol, yn enwedig nam ar y cof, yw'r prif arwydd ac, yn aml, yr arwydd cynharaf o ddementia.

### *Nyrs gofrestredig*

Nyrs sydd wedi'i chofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn y DU, rhaid i bob nyrs, bydwraig a nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol gofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac adnewyddu eu cofrestriad bob tair blynedd er mwyn gallu gweithio.

***Pecyn gofal***
Cyfuniad o gymorth a gwasanaethau a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn.

***Tîm amlddisgyblaethol***
Tîm y mae'n rhaid iddo gynnwys y rhai sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am anghenion, potensial a dyheadau'r unigolyn, oni fydd amgylchiadau eithriadol. Dylai gynnwys o leiaf ddau weithiwr gofal iechyd proffesiynol, h.y. nyrsys, meddygon teulu neu feddygon ymgynghorol, therapyddion galwedigaethol, arbenigwyr eraill e.e. Arbenigwyr Lleferydd ac Iaith / Arbenigwyr Ymddygiadol, yn ogystal â gweithiwr gofal cymdeithasol. Gallai'r TA hefyd gynnwys, lle y bo'n briodol, staff cartref gofal neu ofal yn y cartref.

Nid yw'n cyfeirio at dîm amlddisgyblaethol sy'n bodoli eisoes yn unig, megis tîm sy'n gweithio’n barhaus ar ward ysbyty.

***Wlser pwyso***
Fe'i gelwir hefyd yn friw gorwedd neu'n ddolur gwely. Niwed i ran benodol o'r croen a'r feinwe oddi tano oherwydd cyfuniad o bwyso, croeswasgiad a ffrithiant.

# Adnodd Cymorth Penderfynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
# Adran 4 – Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

.

## Dim ond os nad oes ffurflen monitro cydraddoldeb Rhestr Wirio GIP wedi'i chwblhau y mae angen cwblhau'r adran hon

Rhowch rywfaint o wybodaeth amdanoch chi eich hun. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a oes gan bawb fynediad teg a chyfartal at GIP. Cedwir yr holl wybodaeth yn gwbl gyfrinachol gan y GIG. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych ei throsglwyddo i unrhyw sefydliad arall, i'r cyhoedd nac i'r wasg.

*Ticiwch un blwch ym mhob categori yn unig.*

| **1. RHYW** | |
|---|---|
| Gwryw | |
| Benyw | |
| Trawsryweddol | |

| **2. CYFEIRIADEDD RHYWIOL** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim ond os ydych yn **16 oed** neu drosodd y mae angen i chi ateb. Pa un sy'n gymwys i chi? (*Os 'Arall', nodwch hynny a'i ysgrifennu yn y blwch a ddarperir) | | | | | |
| Heterorywiol / Strêt | Lesbiaidd / Menyw Hoyw | Dyn Hoyw | Person Deurywiol | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | *Arall |
| | | | | | |

| * Unrhyw grŵp arall, nodwch yma |
|---|

| **3. GRŴP OEDRAN –** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pa un sy'n gymwys i chi? | | | | | | | | |
| 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ |
| | | | | | | | | |

| **4. ANABLEDD** | |
|---|---|
| A oes gennych anabledd fel y'i diffinnir gan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*? | Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio person anabl fel rhywun â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. |

at ddefnydd Ymarferwyr yn unig

| | | |
|---|---|---|
| Oes | | |
| Nac oes | | |

| **5. GRŴP ETHNIG –** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pa un sy'n gymwys i chi? (*Os 'Arall', nodwch hynny a'i ysgrifennu yn y blwch a ddarperir) | | | | | | | | | |
| Gwyn | | Cymysg | | Asiaidd *neu* Asiaidd Prydeinig | | Du *neu* Ddu Prydeinig | | Tsieineaidd neu grŵp arall | |
| Prydeinig | | Gwyn a Du Caribïaidd | | Indiaidd | | Caribïaidd | | Tsieineaidd | |
| Gwyddelig | | Gwyn a Du Affricanaidd | | Pacistanaidd | | Affricanaidd | | Arall* | |
| Arall* | | Gwyn ac Asiaidd | | Bangladeshaidd | | Arall* | | | |
| | | Arall* | | Arall* | | | | | |

* Unrhyw grŵp arall, nodwch yma

| **6. CREFYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa un sy'n gymwys i chi? (*Os 'Arall', nodwch hynny a'i ysgrifennu yn y blwch a ddarperir)<br>*Mae Cristnogaeth yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, Eglwys Brotestanaidd a phob enwad Cristnogol arall* | | | | | |
| Cristnogaeth | Bwdhaeth | Hindŵaeth | Iddewiaeth | Mwslimiaeth | Siciaeth |
| | | | | | |

* Unrhyw grŵp arall, nodwch yma